

Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Dyddiad ac Amser

2.30 y.h., DYDD GWENER, 26AIN MAWRTH, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dydd Iau, 18 Mawrth 2021)

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Aelodau a phleidlais

Cynghorwyr

Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ian B. Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Dyfrig L. Siencyn	Cyngor Gwynedd
Sam Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

Dafydd Evans	Grwp Llandrillo Menai
Maria Hinfelaar	Prifysgol Glyndwr
Yana Williams	Coleg Cambria
Askar Sheibani	Bwrdd Cyflenwi Busnes
Yr Athro Iwan Davies	Prifysgol Bangor

Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Colin Everett	Cyngor Sir y Fflint
Judith Greenhalgh	Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd

Swyddogion

Dafydd L. Edwards	Swyddog Adran 151
Iwan G. Evans	Swyddog Monitro
Alwen Williams	Cyfarwyddwr Rhaglen
Hedd Vaughan Evans	Rheolwr Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2021/22

10 - 19

Adroddiad gan Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya.

6. DATGANIAD SEFYLLFA AR NEWID HINSAWDD AC ECOLEGOL

20 - 35

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio.

7. STRATEGAETH YNNI GOGLEDD CYMRU DDRAFFT

36 - 119

Adroddiad gan Henry Aron, Rheolwr Rhaglen Ynni a Rhys Horan, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

8. EGWYDDORION MASNACHOL AR GYFER CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

120 - 122

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

9. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - EGWYDDORION CAFFAEL

123 - 133

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 5.2.21

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a Bryn Jones (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Nicola Stubbins (Cyngor Sir Ddinbych), Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Jane Richardson (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy / Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol - Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol - Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Kirrie Moore (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol), Erin Thomas (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Yana Williams (Coleg Cambria), yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Askar Sheibani fuddiant personol yn eitem 7 – Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio – oherwydd ei fod yn aelod o gonsortiw y prosiect DSP (Y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol).

Nid oedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB REFENIW 2020/21: ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER (RHAGFYR 2020)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau).

PENDERFYNWYD

Derbyniwyd a nodwyd Adolygiad Trydydd Chwarter Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21.

Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2020/21 i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a fydd ar gael yn y dyfodol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £156,255 yn 2020/21. Nodwyd fod modd trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i glustnodi.

Er mwyn gweithredu yn effeithiol, mae angen i'r Cydbwyllgor (y Bwrdd Uchelgais) fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant hyd yma a'r rhagamcanion gwariant eleni yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21, ynghyd â'r rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Mewn ymateb i gwestiynau, nodwyd:-

- Nad oedd y tanwariant wedi cael unrhyw effaith ar yr hyn y dylem fod wedi'i gyflawni erbyn hyn.
- Y byddai'r balans ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/21 yn fwy na'r rhagolygon, a hynny yn bennaf oherwydd Covid-19 a'r oedi o ran recriwtio i swyddi. Bwriedid cyflwyno cyllideb 2021/22 i'r Bwrdd ym mis Mawrth, yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Rheolwr Gweithrediadau i weld oes angen ymrwymo rhywfaint o danwariant eleni yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. Byddai'n hanfodol sicrhau bod gennym rwyd diogelwch yn y tymor hwy, wrth i symiau mwy o arian gael eu gwario.
- Nad oedd yna ateb cywir o ran faint o reserfau y dylid eu cael i'r dyfodol, a bod angen ystyried hyn yng nghyd-destun risgiau eraill y byddwn yn ymrwymo iddynt wrth symud ymlaen, a faint sy'n cael ei roi i mewn ar gyfer darpariaethau megis chwyddiant, ayb. Rhoddid ystyriaeth i hynny wrth ddod â'r gyllideb gerbron.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r tîm am eu gwaith.

6. CYTUNDEB TWF TERFYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio.

PENDERFYNIAD

Nodwyd fod y Cytundeb Terfynol wedi'i gwblhau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Tachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth i Benawdau'r Telerau, gyda Chytundeb Terfynol i'w gwblhau yn 2020. Amlygwyd fod y Cytundeb Terfynol yn ddatganiad o gytundeb rhwng y Partneriaid, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Ym mis Hydref 2020, bu i'r Bwrdd Uchelgais argymhell y Cytundeb Terfynol drafft a chyflwynwyd y Cytundeb Terfynol drwy brosesau ddemocrataidd a phenderfynu y partneriaid. Bu i'r ddogfen derfynol gael ei ddatblygu ar y cyd drwy gytundeb gyda'r Llywodraethau. Cynhaliwyd seremoni arwyddo'r Cytundeb Terfynol yn ystod Rhagfyr 2020. Amlygwyd i'r Bwrdd fod y Cytundeb Terfynol wedi ei gwblhau. Cyflwynwyd yr gytundeb i'r Bwrdd i adrodd ar gwblhau y broses yma.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad a oedd yn cyflwyno y fersiwn olaf o'r Cytundeb Terfynol. Amlygwyd fod drafft wedi ei gyflwyno yn ôl ym mis Hydref drwy ac fod seremoni arwyddo'r Cytundeb wedi ei gynnal ym mis Rhagfyr. Nodwyd fod yr adroddiad yn cyflwyno y cytundeb ac adrodd ar gwblhau'r broses.

7. ADRODDIAD AR UCHAFBWYNTIAU'R PORTFFOLIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans

PENDERFYNIAD

Nodwyd yr Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 a'r cynnydd ers cwblhau'r Cytundeb Twf yn Rhagfyr 2020.

Dirprwywyd yr hawl i'r Rheolwr Gweithrediadau mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd i ddiweddarau'r adroddiad fel a nodwyd ar lafar yn ystod cyfarfod y Bwrdd cyn cyflwyno'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn ystod Rhagfyr 2020, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

Amlygwyd fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd ers arwyddo'r cytundeb, a throsolwg o'r sefyllfa bresennol gyda phob rhaglen a phrosiect o fewn y cynllun gydag amserlen wedi ei diweddarau ar gyfer cyflawni. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn canolbwyntio yn benodol ar yr amserlen i'r Bwrdd Uchelgais ystyried yr Achosion Busnes Amlinellol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn diweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar y cynnydd a waed ers cwblhau'r Cytundeb Terfynol. Ychwanegwyd ei fod yn canolbwyntio yn benodol ar amserlen i'r Bwrdd Uchelgais gan ystyried yr Achosion Busnes Amlinellol. Pwysleisiwyd fod ystyried a chyflwyno'r adroddiad i'r ddwy Lywodraeth yn un o'r gofynion ar gyfer tynnu lawr y cyfran gyntaf o'r cyllid.

Nodwyd y prif ddatblygiadau ac amlygwyd fod tri prosiect wedi trefnu adolygiadau porth, a oedd yn cynnwys Morlais, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter a Chanolfan Economi Gwledig Glynllifon. Pwysleisiwyd o ran Tendr Gwefan a Brand, yn dilyn ymarferiad caffael fod Tinint wedi'i dewis i ddatblygu'r wefan a brand newydd. Ychwanegwyd fod cyfarfod cyntaf gyda'r Cwmni wedi ei gynnal ac fod amserlen o 12 wythnos yn ei le, ac felly fod y gwaith yn amserol ac y bydd modd ei gyflawni.

Mynegwyd fod Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol a Rheolwr Prosiect Cyllid Ewropeaidd bellach wedi eu penodi, ynghyd a strwythur staffio diwygiedig ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i gytuno gyda WEFO. Nodwyd y bydd y swyddi terfynol yn cael ei hysbysebu ym mis Chwefror a Mawrth.

Tynnwyd sylw at Argymhellion AOR, gan nodi fod y tîm yn gweithio drwy'r naw argymhelliad. Mynegwyd y bydd adroddiad pellach ar yr argymhellion y cyfarfod nesaf.

Tywyswyd drwy'r rhaglenni gwaith gan amlinellu'r amserlenni ar gyfer yr holl gynlluniau. Amlygwyd fod rhai cynlluniau yn cael eu harafu neu yn ddilynol ar achosion tu hwnt i'r Bwrdd Uchelgais. Ychwanegwyd bydd nifer o'r cynlluniau busnes yn cael eu cymeradwyo yn 2022-23.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y trosolwg gan amlygu fod cynlluniau yn symud yn eu blaenau yn gyson. Nodwyd yr angen i ychwanegu diweddariadau i'r adroddiaad cyn ei anfon at y ddwy Lywodraeth.
- Amlygwyd y bydd llawer o gynlluniau busnes yn cael eu amserlennu ym mis Mehefin, nodwyd fod angen sicrhau nad yw popeth yn cael eu cyflwyno yr un pryd. Nodwyd fod nifer yr achosion busnes yn uchel a gobeithir y bydd modd eu cyflwyno fesul dau i'r Bwrdd Uchelgais gan eu bod yn achosion technegol.

8. PROSES AU CYLLID AC ACHOSION BUSNES

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans.

PENDERFYNIAD

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Rhagfyr, bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Bu i'r adroddiad ddarparu trosolwg o'r prosesau y cytunwyd arnynt gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer cymeradwyo'r cyllid blynyddol a chymeradwyo'r achosion busnes unigol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn amlygu y prosesau perthnasol ar gyfer cymeradwyo achosion busnes y prosiectau er mwyn sicrhau fod y cyllid yn cael ei dynnu i lawr yn flynyddol. Ychwanegwyd o ran y broses cymeradwyo Cyllid Blynyddol y bydd angen cyflwyno cyfres o ddogfennau allweddol i'r ddwy Lywodraeth. Nodwyd yn dilyn eu cyflwyno, bydd y ddwy Lywodraeth yn llywio'r dogfennau drwy eu prosesau cymeradwyo mewnol. Amlygwyd y posibilrwydd y bydd angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses, ac yn dilyn cymeradwyaeth bydd Llythyr Dyfarnu Grant yn cael ei gyhoeddi.

Tynnwyd sylw at y broses cymeradwyo ar gyfer Achosion Busnes y Prosiectau gan nodi y byd angen i'r achosion busnes gael eu datblygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Esboniwyd y byddant yn cael ei datblygu mewn tri cham – Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn. Ychwanegwyd y bydd nifer o gynllunio yn mynd yn syth i'r ail gam ac i greu Achos Busnes Amlinellol. Amlygwyd y pwrpasau penodol i'r pump achos o fewn y model.

Nodwyd er mai'r Bwrdd Uchelgais yw'r corff sydd yn gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, esboniwyd y bydd y ddwy Lywodraeth yn adolygu a cymeradwyo'r broses sicrwydd gyda pob prosiect. Esboniwyd fod yr Adolygiadau Porth yn rhan allweddol o'r broses sicrwydd ac eu bod yn adolygiadau annibynnol a fydd yn cael eu trefnu gan y ddwy Lywodraeth. O ganlyniad i aeddfedrwydd a bodolaeth Achosion Busnes a Rhaglen a'r Portffolio, nodwyd y bydd mwyafrif o'r prosiectau yn symud ymlaen gam Porth 2 – Achos Busnes Amlinellol. Mynegwyd wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol, bydd y Bwrdd Uchelgais yn galluogi'r prosiect fwrw ymlaen â'r gweithgareddau caffael angenrheidiol, ac yn caniatáu i'r Achos Busnes Llawn gael ei ddatblygu cyn gellir ei gymeradwyo ac yna cychwyn ar y cyflawni.

9. YMGYSYLLTU GYDA'R SECTOR BREIFAT

Cyflwynwyd yr adroddiad Gan Alwen Williams.

PENDERFYNIAD

Cadarnhawyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Cyflawni Busnes.

Dirprwywyd yr hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd gwblhau y Cylch Gorchwyl ac i gytuno ar enw cyhoeddus y Bwrdd .

Cadarnhawyd y gall aelodau cyfredol y Bwrdd Cyflawni Busnes, ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais a'r Cyfarwyddwr Portffolio, weithio gyda'i gilydd i benodi Cadeirydd parhaol i'r grŵp.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2021, bu i aelodau y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Swyddfa Rheoli Portffolio cytuno ei bod hi'n amserol ac yn briodol edrych ar gylch gorchwyl y Grŵp Cyflawni Busnes.

Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi'i sefydlu fel Is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae cymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft y Bwrdd Cyflawni Busnes ynghyd ag aelodaeth y Bwrdd yn fater i'r Cyd-bwyllgor.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gwaith wedi ei wneud i adeiladu'r berthynas a'r Sector Breifat dros y 12 mis diwethaf. Ychwanegwyd fod y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Swyddfa Rheoli Prosiect wedi cytuno ei bod yn amserol ac yn briodoli i edrych ar gylch gwaith y Grŵp Cyflawni Busnes.

Nodwyd fod y Cylch Gorchwyl drafft wedi ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais, Y Swyddfa Rheoli Portffolio a chynrychiolwyr y sector breifat. Ychwanegwyd y bydd yr aelodaeth

gyfredol, dan arweiniad y Cadeirydd dros dro yn recriwtio ac yn penodi aelodau newydd i gynrychioli'r holl sector fydd yn cael sylw gan y Cynllun Twf. Unwaith y bydd aelodaeth wedi'i gytuno, nodwyd y bydd Cadeirydd yn cael enwebu a nodwyd y byddant yn gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd. Pwysleiswyd y bydd mwy o gydweithio rhwng y Grŵp a'r Bwrdd ond y bydd yn parhau i fod yn gorff ymgynghorol.

Sylwadau'n doi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod sefydlu'r Cylch Gorchwyl yn rhan o GA2, ac ei fod yn cyd-fynd a'r disgwyliadau sydd gan y ddwy Lywodraeth.
- Cytunwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd gwblhau y Cylch Gorchwyl ac i gytuno ar enw cyhoeddus y Bwrdd.

10. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD

Cytunwyr y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Nodwyd fod budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

11. ADOLYGIAD GWAELODLIN DIWYGIEDIG – Ionawr 2021

PENDERFYNIAD


Nodwyd yr adroddiad gwaelodlin ar gyfer pob rhaglen.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod angen diweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar sefyllfa pob rhaglen a phrosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr adroddiad.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

26/03/2021

Teitl: Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2021/22

Awdur: Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2021/22 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais).

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Bwrdd:-

2.1 Cymeradwyo Cyllideb Refeniw 2021/22 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau unwaith ac am byth o £415,000 yn y gyllideb refeniw i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir.

2.2 Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf 2021/22 hyd 2025/26 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.

2.3 Cyllido'r Adolygiadau Porth (Sicrwydd) ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.

2.4 Gofyn yn ffurfiol i bob un o'r chwe awdurdod lleol gydweithredu wrth ddefnyddio eu hyblygrwydd ariannu i ryddhau cyllid refeniw i'r Bwrdd Uchelgais. Golyga hyn gyfnewid y cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.

2.5 Gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio adolygu costau'r prosiectau yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, ymhellach i'r costau nas ragwelwyd sydd bellach wedi'u hadnabod yn y gyllideb refeniw. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiect unigol.

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

- 3.1 Gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
- 3.2 Gosod y gyllideb arfaethedig fesul prosiect a'r ariannu cyfalaf cyfatebol ar gyfer 2021/22 hyd 2025/26.
- 3.3 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
- 3.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

- 4.1 Mae'r gyllideb refeniw ar ffurf debyg i flynyddoedd blaenorol, gyda "Prosiectau" wedi'i gynnwys fel pennawd ychwanegol eleni.
- 4.2 Derbyniwyd y Llythyr Dyfarnu Cyllid ar gyfer grant Bargen Twf Gogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021, a derbyniwyd y rhandaliad cyntaf o £16m ar 12 Mawrth 2021. O ganlyniad, mae cyllideb gyfalaf wedi'i chynnwys i ddarparu'r proffil gwariant ar gyfer gwariant y prosiectau dros y pum mlynedd nesaf.

Cyllideb Refeniw

Swyddfa Rheoli Portffolio - £1,612,840

- 4.3 Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn seiliedig ar 21 swydd lawn amser, ac yn ychwanegol i'r cyllidebau safonol megis hyfforddiant, teithio a chyfarfodydd, mae cyllidebau wedi'u cynnwys ar gyfer Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, Datblygu'r Portffolio a'r Rhaglenni a chefnogaeth allanol ar gyfer Caffael a Thrafnidiaeth.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £175,710

- 4.4 Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol, Cefnogaeth Gorfforaethol a Thechnoleg Gwybodaeth.
- 4.5 Caiff ystod y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cytuno gyda phob Adran.

Cyd-bwyllgor

- 4.6 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000
Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas â materion llywodraethu a pholisi.
- 4.7 Ffioedd Cyllidol Allanol - £10,000
Bydd y gyllideb hon yn bennaf ar gyfer mewnbwn gan yr Ymgynghorwyr Trysorlys allanol ar gyllid cyfalaf y prosiectau.
- 4.8 Ffi Archwilio Allanol - £11,000
O 2021/22, bydd y Cyd-bwyllgor wedi'i gategoreiddio'n "gorff perthnasol mwy" ac mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu y cynhyrchir datganiad cyfrifon llawn. Bydd y Cyfrifon hyn yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd, ac mae amcan gyllideb wedi'i seilio ar Gyd-bwyllgorau mwy tebyg eraill wedi'i defnyddio.
- 4.9 Bwrdd Cyflawni Busnes - £20,000
Ar 5 Chwefror 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y byddai'r Bwrdd Cyflawni Busnes diwygiedig yn gweithredu'n wirfoddol gyda'r gyllideb o £20,000 a ddarparwyd yn hanesyddol ar gyfer tâl y Cadeirydd yn cael ei ddyrannu i waith y Bwrdd diwygiedig yn 2021/22.

Prosiectau

4.10 Mae ffigyrau'r gyllideb yn amcan ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael, ac mae'n cynnwys costau nas ragwelwyd yn flaenorol i fod yn rhan o'r gyllideb refeniw. Bydd angen iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, gan ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiectau unigol.

4.11 Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau - £250,000

Bydd pob un o'r 21 prosiect unigol angen Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfrifol am ariannu'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais, a bydd hyn yn cynnwys gwaith arbenigol helaeth gan gwmnïau allanol. Yn ogystal â'r £250,000 sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2021/22, mae'n debygol y bydd angen £250,000 pellach yn y blynyddoedd dilynol er mwyn cwblhau'r gwaith hwn.

4.12 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £100,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

4.13 Sicrwydd - £100,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Ariannwyr y Prosiectau.

4.14 Llog - £678,020

Bydd y cyfraniadau llog a dderbynnir gan bartneriaid wedi'u rhoi i un ochr i ariannu'r gost gyfartalog o fenthycyca sy'n gysylltiedig ag ariannu'r gyllideb gyfalaf dros oes y cynllun twf.

Cyfraniadau Ariannu

4.15 Cyfraniadau Partneriaid - (£400,000)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 (GA2), mae Cyllideb 2021/22 yn cynnwys cyfraniad o £50,000 gan y chwe awdurdod lleol a £25,000 gan y pedwar ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £400,000. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi aros yr un peth ers 2020/21, heb unrhyw gynnydd chwyddiannol er mwyn

adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno'n flaenorol fel sail er mwyn i'r partneriaid unigol osod eu cyllidebau ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen i gyfraniadau'r partneriaid gynyddu yng nghyllidebau'r dyfodol i adlewyrchu'r chwyddiant ar gyflogau, yswiriant gwladol a phensiwn yn unol â chymal 15.4.3 GA2.

4.16 Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol - (£240,000)

Eto, yn unol â GA2, mae'r gyllideb yn cynnwys £40,000 gan y chwe awdurdod lleol i roi cyfanswm cyfraniad o £240,000. Ariannir cyllideb y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol o £42,290 o'r cyfraniadau hyn.

4.17 Cyfraniadau Llog y Partneriaid - (£678,020)

Mae cyfraniadau llog y partneriaid o £678,020 yn adlewyrchu'r ffigyrau a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2020. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU yng Nghyllideb y Canghellor ar 3 Mawrth 2021 yng nghyswllt cwtogi'r cyfnod ariannu o 15 mlynedd i 10 mlynedd, caiff y cyfrifiadau llog eu hail-gyfrifo unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru. Yn y dyfodol, caiff y cyfraniadau eu hadolygu i adlewyrchu cost benthyca, proffil diwygiedig y rhaglen gyfalaf ac oes cynnyrch cyfraddau busnes.

4.18 Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) - (£858,120)

Mae'r cyllid ESF yn cyfrannu at y gwariant ar weithwyr, a'r amcan gyllid ar gyfer 2021/22 yw £858,120.

4.19 Grant Bargaen Twf Gogledd Cymru - (£384,430)

Er bod grant Bargaen Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 1.5%, sydd gyfwerth â £3.6m o grant Bargaen Twf Gogledd Cymru wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli cyllid eu rhaglenni cyfalaf eu hunain. Mae copi drafft o lythyr Trefniadau Ariannol y Cynllun Twf wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, a phan gaiff ei ffurfioli, bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd Uchelgais yn nhermau hyblygrwydd y cyllid. Gall hyn gynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol yn clustnodi'r cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.

4.20 Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi - (£415,000)

Yn ogystal â'r Gyllideb Sylfaenol, bydd angen trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn bennaf yn ariannu'r wefan, brand a'r strategaeth gyfathrebu; datblygu'r portffolio a'r rhaglenni; cefnogaeth allanol ar gyfer caffael a thrafnidiaeth; datblygu achosion busnes y prosiectau ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer yr holl brosiectau.

4.21 Roedd yr adolygiad trydydd chwarter yn amcangyfrif gweddill o £654,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2021. Wedi defnyddio £415,000 o'r balans hwn i ariannu trosglwyddiadau unwaith ac am byth yn 2021/22, bydd £239,000 ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Cyllideb Gyfalaf

4.22 Mae'r cyllideb gyfalaf yn dangos proffil gwariant ar gyfer y 21 prosiect dros y cyfnod o 2021/22 hyd 2025/26. Mae'n seiliedig ar amserlen ddiweddaraf y prosiectau, a chaiff ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo. Mae'n dangos fel cyfanswm o £236.4m gan fod 1.5% wedi'i frigidorri i ariannu'r gyllideb refeniw.

4.23 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, tybir y bydd y cyllid yn cael ei dderbyn dros 10 mlynedd a'i gyfateb gan Lywodraeth Cymru. Bydd £135m o'r cyllid grant ar gael i ariannu'r gwariant wrth iddo godi. Bydd y £101m sy'n weddill wedi'i ariannu drwy fenthycu i ddechrau, ac yna'i ad-dalu gyda'r grant a dderbynnir yn 2025/26 hyd 2029/30.

4.24 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir rheolaethau yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

5. Y Cyd-destun Llywodraethol

- 5.1 Mae angen i'r corff atebol baratoi'r Gyllideb Flynyddol ac mae angen i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais gytuno iddi.
- 5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyl i lefel yr adnoddau a glustnodir gael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddarau wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.
- 5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Grŵp Gweithredol. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Medi 2021 a Rhagfyr 2021 a'i gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

6. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

- 6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1 a 2 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i'r Grŵp Gweithredol ar 12 Mawrth 2021.
- 6.2 Rhannwyd fersiwn drafft o'r adroddiad hwn gyda swyddogion cyllid statudol y chwe awdurdod lleol gyda'r bwriad o gael cytundeb ar gyfnewid y cyllid cyfalaf/refeniw.

7. Atodiadau

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw 2021/22 y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Atodiad 2 - Cyllideb Gyfalaf 2021/22 y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

- i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb.
- ii. **Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**
Awdur yr adroddiad hwn.

Gwariant	Cyllideb Sylfaenol (£)	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)
Swyddfa Rheoli Portffolio			
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	1,230,550		1,230,550
Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr		5,000	5,000
Teithio a Chynhaliaeth	7,500		7,500
Hyfforddiant	7,500	10,000	17,500
Ymgysylltu a Chyfarfodydd	7,500		7,500
Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus	30,000	50,000	80,000
Cyflenwadau a Gwasanaethau	10,000	10,000	20,000
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol	42,290		42,290
Eiddo	17,500		17,500
Yswiriant	10,000		10,000
Datblygu Portffolio a Rhaglenni		95,000	95,000
Cefnogaeth allanol Caffael a Thrafnidiaeth Allanol		80,000	80,000
Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen	1,362,840	250,000	1,612,840
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol			
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid	98,110		98,110
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	25,490		25,490
Cefnogaeth Gorfforaethol	37,110		37,110
Technoleg Gwybodaeth	15,000		15,000
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	175,710		175,710
Cyd-bwyllgor			
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	18,000		18,000
Ffioedd Cyllidol Allanol	10,000		10,000
Ffi Archwilio Allanol	11,000		11,000
Bwrdd Cyflawni Busnes	20,000		20,000
Cyfanswm Cyd-bwyllgor	59,000		59,000
Prosiectau			
Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau	145,000	105,000	250,000
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	100,000		100,000
Sicrwydd	40,000	60,000	100,000
Llog	678,020		678,020
Cyfanswm Prosiectau	963,020	165,000	1,128,020
Cyfanswm Gwariant	2,560,570	415,000	2,975,570

Incwm	Cyllideb Sylfaenol (£)	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)
Cyfraniadau Ariannu			
Cyfraniadau Partneriaid			
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(50,000)		(50,000)
Cyngor Sir Ddinbych	(50,000)		(50,000)
Cyngor Sir y Fflint	(50,000)		(50,000)
Cyngor Gwynedd	(50,000)		(50,000)
Cyngor Sir Ynys Môn	(50,000)		(50,000)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(50,000)		(50,000)
Prifysgol Bangor	(25,000)		(25,000)
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	(25,000)		(25,000)
Coleg Cambria	(25,000)		(25,000)
Grŵp Llandrillo Menai	(25,000)		(25,000)
Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol			
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(40,000)		(40,000)
Cyngor Sir Ddinbych	(40,000)		(40,000)
Cyngor Sir y Fflint	(40,000)		(40,000)
Cyngor Gwynedd	(40,000)		(40,000)
Cyngor Sir Ynys Môn	(40,000)		(40,000)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(40,000)		(40,000)
Cyfraniadau Ilog y Partneriaid			
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(78,010)		(78,010)
Cyngor Sir Ddinbych	(64,000)		(64,000)
Cyngor Sir y Fflint	(104,000)		(104,000)
Cyngor Gwynedd	(82,670)		(82,670)
Cyngor Sir Ynys Môn	(46,670)		(46,670)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(90,670)		(90,670)
Prifysgol Bangor	(93,330)		(93,330)
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	(34,000)		(34,000)
Coleg Cambria	(34,670)		(34,670)
Grŵp Llandrillo Menai	(50,000)		(50,000)
Eraill			
Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd	(858,120)		(858,120)
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru	(384,430)		(384,430)
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi		(415,000)	(415,000) *
Cyfanswm Incwm	(2,560,570)	(415,000)	(2,975,570)
Cyllideb Net	0	0	0

* Bydd hyn yn gadael amcan balans o £239,000 yn y gronfa wrth gefn (seiliedig ar y tanwaraint a adroddwyd yn yr Adolygiad Trydydd Chwarter 2020-21).

Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22.

Atodiad 2

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	2021/22 (£m)	2022/23 (£m)	2023/24 (£m)	2024/25 (£m)	2025/26 (£m)	Cyfanswm (£m)
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	1.72	0.99	0.25	0.00	0.00	2.96
Digidol	Cysylltedd Cystadleuol - ffibr llawn mewn safleoedd allweddol	BUEGC	0.00	3.45	3.25	0.00	0.00	6.70
Digidol	Coridor Cysylltiedig	BUEGC	0.99	1.18	0.00	0.00	0.00	2.17
Digidol	Campws Cysylltiedig	BUEGC	0.00	3.94	5.90	5.91	4.93	20.68
Digidol	Cysylltu ychydig ganrannau olaf	BUEGC	0.99	2.95	0.00	0.00	0.00	3.94
Ynni carbon isel	Morlais	Menter Môn	2.46	4.93	1.48	0.00	0.00	8.87
Ynni carbon isel	Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	4.74	6.71	5.23	4.00	20.68
Ynni carbon isel	Gorsaf Bŵr Trawsfynydd	Cwmni Eginio	0.00	4.92	9.85	4.93	0.00	19.70
Ynni carbon isel	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	BUEGC	1.97	3.94	3.94	1.38	0.00	11.23
Ynni carbon isel	Ynni Lleol Blaengar	BUEGC	0.00	3.94	7.88	7.88	4.93	24.63
Tir ac eiddo	Porth Caergybi	Stena Line	0.00	11.33	13.78	9.36	0.00	34.47
Tir ac eiddo	Safle Strategol Warren Hall	BUEGC	0.00	0.49	0.99	5.91	7.38	14.77
Tir ac eiddo	Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	BUEGC	0.99	0.99	0.98	0.98	0.00	3.94
Tir ac eiddo	Safle Strategol Bodelwyddan	BUEGC	0.49	0.99	5.41	2.96	0.00	9.85
Tir ac eiddo	Safle Strategol Parc Bryn Cegin	BUEGC	0.25	2.70	2.96	0.00	0.00	5.91
Tir ac eiddo	Porth Wrecsam	BUEGC	0.00	4.03	4.93	0.00	0.00	8.96
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	1.48	1.48	0.00	0.00	2.96
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter	Prifysgol Glyndŵr	8.28	1.57	0.00	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.49	4.68	4.68	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambira	0.00	4.92	4.93	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Academi Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	1.48	1.48	1.47	0.00	4.43
Cyfanswm Rhaglen			18.63	69.64	80.88	46.01	21.24	236.40
Ariannu Cyfalaf								
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru			18.63	46.15	24.51	24.52	21.24	135.05
Benthyciad*				23.49	56.37	21.49		101.35
Cyfanswm Ariannu Cyfalaf			18.63	69.64	80.88	46.01	21.24	236.40

Tud. 19

* Bydd y fenthyciad yn cael ei ad-dalu gyda'r grant a dderbynnir yn 2025/26 i 2029/30.

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**26 MAWRTH, 2021**

TEITL: *Datganiad Sefyllfa ar Newid Hinsawdd ac Ecolegol***AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Cyflwyno datganiad sefyllfa arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ymwneud â newid hinsawdd ac ecolegol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Mabwysiadu'r datganiad sefyllfa arfaethedig fel y nodir yn adran 5.1 ar sut y bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cyflawni yn erbyn dyheadau rhanbarthol a dyheadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar newid hinsawdd ac ecolegol.
- 2.2. Nodi y bydd gofyn i holl brosiectau'r Cynllun Twf amlinellu i ba raddau y byddant yn cyflawni yn erbyn y datganiad sefyllfa ac unrhyw fesurau lliniaru perthnasol fel rhan o broses gymeradwyo'r achos busnes.
- 2.3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio bennu'r modd gweithredu a mesur priodol ar draws y portffolio a nodi y bydd angen comisiynu arbenigedd allanol i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Heb ddatganiad sefyllfa clir gan y Bwrdd ar newid hinsawdd ac ecolegol, gellid colli cyfleoedd i siapio achosion busnes y prosiectau. Gallai hyn arwain yn anfwriadol at brosiectau'r Cynllun Twf yn cynyddu allyriadau carbon rhanbarthol a cholli bioamrywiaeth.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymïadau cadarn i fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net. Targed y DU yw dod â holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050 gyda gostyngiad i 61% o lefelau 1990 erbyn 2030. Targed Llywodraeth Cymru yw cyflawni sero net erbyn 2050 hefyd, ond gyda dyhead i gyflawni'n gynt a gweithio tuag at sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030.
- 4.2. Mae pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd naill ai wedi datgan argyfwng hinsawdd neu wedi gwneud ymrwymïadau i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.
- 4.3. Ledled y DU, mae'r sector preifat hefyd yn gwneud ymrwymïadau sylweddol ar gyrraedd sero net. Mae enghreifftiau'n cynnwys cadwyni archfarchnadoedd mawr megis Tesco a Sainsbury's, cwmnïau yswiriant megis Aviva, darparwyr telegyfathrebu megis BT a'r datblygwr tai Barratt Developments. Yn lleol, mae nifer o gwmnïau blaenllaw yn y Gogledd wedi gwneud ymrwymïadau tebyg yn cynnwys y gymdeithas tai Adra ac Airbus, sy'n un o sylfaenwyr Mission Possible, grŵp sy'n gweithio i ddatgarboneiddio'r diwrddiannau'n fwyaf dibynnol ar danwyddau ffosil.

- 4.4. Mae Achos Busnes y Portffolio, sydd wedi'i gymeradwyo, yn cydnabod bod cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf dros y 15 mlynedd nesaf yn codi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais leoli'r Gogledd ar gyfer ffyniant tymor hwy drwy ystyried effaith newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- 4.4. Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn rhoi canllawiau ar sut i arfarnu a gwerthuso prosiectau. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn awgrymu ymgymryd â dadansoddiad o allyriadau ac asesiadau effaith cyfalaf naturiol, fodd bynnag, nid ydynt yn orfodol ac mae'n bosib na fyddent yn darparu'r wybodaeth y mae'r Bwrdd ei hangen i wneud penderfyniad llawn a deallus.

5. Y DATGANIAD SEFYLLFA ARFAETHEDIG A'R RHESYMEG

5.1. Y Datganiad Sefyllfa Arfaethedig

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymrwymo i ymgyrch genedlaethol tuag at ddatblygiad cynaliadwy, allyriadau sero net a lliniaru colli bioamrywiaeth. Mae hefyd yn benderfynol i wneud y gorau o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth rhanbarthol a fydd yn sail i ffyniant mewn economi carbon isel.


I yrru'r uchelgeisiau hyn, bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn anelu i:

- **gyflawni carbon gweithredol sero net;**
- **cyflawni 40% yn llai o garbon corfforedig**
- **cyflawni budd net o 10% ar gyfer bioamrywiaeth.**

Bydd prosiectau'n cael eu hannog i gyflawni'n uwch na'r dyheadau hyn. Os nad yw'r prosiectau yn medru cyflawni yn erbyn un o'r dyheadau uchod, bydd gofyn i arianwyr y prosiectau nodi strategaeth lliniaru a chyfiawnhad clir i'r Bwrdd ei hystyried. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect.


Sail Resymegol

- 5.2. Mae carbon gweithredol yn cyfeirio at faint y carbon a gaiff ei allyrru yn ystod cyfnod gweithredol neu mewn defnydd adeilad neu ased. Rhai enghreifftiau fyddai goleuo, gwresogi a chynnal a chadw adeilad a dyluniad, lleoliad, cyfeiriad a gweithrediad adeilad sy'n medru effeithio'n sylweddol ar lefelau'r carbon gweithredol a gaiff ei allyrru. Mae adeiladau gweithredol sero net yn effeithlon iawn o ran ynni gyda'r holl ynni sy'n weddill o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle a/neu oddi ar y safle. Mae'r World Green Building Council wedi gosod her i sefydliadau gyrraedd sero net mewn gweithrediad ar gyfer yr holl asedau dan eu rheolaeth uniongyrchol erbyn 2030.
- 5.3. Fodd bynnag, yn nodweddiadol, mae allyriadau gweithredol ond yn cyfrif am gyfran o gyfanswm yr allyriadau a gynhyrchir gan brosiect isadeiledd. Caiff allyriadau eraill eu cynhyrchu drwy ddarganfod a phrosesu deunyddiau, trafndiaeth ac adeiladu ynghyd ag allyriadau a gynhyrchir o ddymchwel a gwastraff ar ddiwedd oes. Bydd canolbwyntio'n unig ar allyriadau gweithredol yn methu 'enillion hawdd' o liniaru allyriadau ar gamau eraill cylch bywyd ac yn methu cyfleoedd cadwyn gyflenwi leol (e.e. darganfod deunydd yn lleol gyda llai o filltiroedd i gludo). Carbon corfforedig yw'r term a ddefnyddir i gyfleu'r holl elfennau hyn. Mae'r World Green Building Council wedi gosod her i holl adeiladau newydd, seilwaith ac adnewyddiadau i gael o leiaf 40% yn llai o garbon corfforedig erbyn 2030. Mae'r diagram isod yn rhoi darlun gweledol o'r llwybr hwn.



Ffigur 1: Ffeithlun 'Whole Life Carbon Vision' y World Green Building Council

5.4. Mae gofyn i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth eisoes wrth arfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiad achosi colled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Er nad oes targedau wedi'u gosod yng Nghymru ar hyn o bryd, mae DEFRA wedi gosod targed ar gyfer yr holl safleoedd datblygu newydd yn Lloegr i ddangos cynnydd o 10% mewn bioamrywiaeth ar neu ger safleoedd datblygu. Gosodwyd y targed hwn yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu sylweddol gyda rhanddeiliaid a dadansoddiad cadarn o achos busnes y goblygiadau. Mae'r diagram isod yn rhoi darlun o sut gallai cynigion enillion net weithio'n ymarferol.



Ffigur 2: Senario Enillion Net Bioamrywiaeth DEFRA

6. GWEITHREDIAD

- 6.1. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cydnabod yr heriau o bontio i economi carbon isel ac efallai na fyddai'n ymarferol i rai o'r prosiectau mwyaf aeddfed ac sydd wedi'u diffinio orau o fewn y Cynllun Twf i gyflawni ar bob un o'r dyheadau hyn.
- 6.2. Ar gyfer prosiectau cysyniad neu'r rheini sydd ar y camau cynnar o gael eu datblygu, gellir mewnosod y dyheadau o fewn y datganiad sefyllfa i'r broses o ddatblygu'r achosion busnes ar y dechrau un. Ar gyfer y prosiectau hynny sydd wedi'u datblygu'n dda ac sy'n ceisio cymeradwyaeth OBC, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr y prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau gan gydnabod yr heriau a'r costau sydd ynghlwm â newidiadau sgôp ar gamau hwyrach datblygu prosiectau. Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg gweledol o sut bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda phrosiectau o wahanol lefelau o aeddfedrwydd i gyflawni yn erbyn y datganiad sefyllfa.



Ffigur 3: Llwybr Aeddfedrwydd Prosiectau

6.3 Mae nifer o asesiadau posib y gellir eu gwneud fel rhan o'r broses o ddatblygu'r achos busnes i helpu i asesu effeithiau prosiectau, yn cynnwys asesiadau cyfalaf naturiol, asesiadau enillion net bioamrywiaeth ac asesiadau effaith amgylcheddol. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i ddatblygu proses gweithredu gymesur i ganiatáu i'r Bwrdd wneud penderfyniad deallus ar achosion busnes y prosiectau.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r penderfyniad hwn.

8. GOBLYGIADAU ADNODDAU AC ARIANNOL

8.1. Bydd y gwaith o bennu'r modd gweithredu a mesur priodol ar draws y portffolio yn cael ei ddiwallu drwy adnoddau a chyllideb presennol y Swyddfa Rheoli Portffolio.

8.2. Gall cyflawni ar y dyheadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad sefyllfa gael goblygiadau ariannol ar brosiectau'r Cynllun Twf, a allai olygu y bydd angen i arianwyr prosiectau sicrhau cyllid ychwanegol, i addasu neu leihau sgôp y prosiectau. Bydd cadarnhau sefyllfa'r Portffolio ar hyn cyn gynted â phosib yn lleihau unrhyw gostau ychwanegol i'r eithaf.

8.3. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth i adnabod a sicrhau ffynonellau ariannu ychwanegol, sydd ar gael fwyfwy i weithgareddau sy'n cefnogi'r datganiad sefyllfa arfaethedig.

9. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

9.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod gofynion ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r datganiad sefyllfa arfaethedig yn unol â'r dyheadau hyn ac yn arwain at effaith gadarnhaol i holl drigolion a chymunedau'r Gogledd.

10. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIYD

10.1. Trafodwyd y papur a'r datganiad sefyllfa arfaethedig yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ar 12 Chwefror a 12 Mawrth, 2021.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Gwybodaeth Gefndirol (Adroddiad Technegol)

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae’r Cytundeb Twf Terfynol yn amlygu y rhaglen carbon isel fel un o themâu cyson. Fel y cyfeirir yn yr adroddiad mae dyletswyddau y Bwrdd o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn berthnasol i’r agenda yma. Mae’n bwysig felly fod y Bwrdd yn cymryd camau i adnabod sut y bwriedir dod a’r materion yma ynghyd yn ei Raglenni.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Mae rhan 8.2 o’r adroddiad yma’n egluro “gall cyflawni ar y dyheadau [amgylcheddol yma] gael goblygiadau ariannol ar brosiectau’r Cynllun Twf”, ac mae risg gall fforddiadwyedd yr ymrwymiad a geisir yma olygu “lleihau sgôp prosiectau”. Ymhellach, cyn gwneud yr ymrwymadau amgylcheddol hyn yn flaenoriaeth iddynt, efallai hoffai’r aelodau ystyried amcanion eraill, e.e. nodau cymdeithasol a diwylliannol, a’r cyfanswm cost tebygol o fewn amlen gost y prosiectau. Er hynny, rwy’n cytuno gyda rhan 8.3 o’r adroddiad fod rhaid gweithio “i gyflawni’r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect.”

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Allryiadau a Bioamrywiaeth - atodiad technegol



Gweler Atodiad A am restr o'r prif dermau

1. Cefndir

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi'i lofnodi mewn cyfnod lle mae gwledydd ar draws y byd yn ymrafael â'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) yn ddramatig ac ymdrin â'r colledion bioamrywiaeth ehangach.¹ Wrth i strategaethau a chanllawiau Llywodraethau'r DU a Chymru (e.e. Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM) gael eu diweddarau'n gyflym, mae'r pwysau gwleidyddol am ddatgarboneiddio'n gyflymach a gwyrddio'r colledion bioamrywiaeth yn parhau i dyfu ac mae'n debygol o ddwysau eleni drwy uwch gynhadledd hinsawdd Joe Biden a'r DU yn croesawu'r COP26 ym mis Tachwedd. Mae Chweched Cyllideb Carbon y DU² yn pwysleisio bod angen gwneud cynnydd ar fyrder ar ddatgarboneiddio ar draws holl sectorau'r economi ac mae'n nodi llwybrau clir fesul sector.

Mae cyfleoedd sylweddol i Ogledd Cymru a'r Cynllun Twf yn y dirwedd hon sy'n newid, y benodol o amgylch cynhyrchu ynni gwyrdd, gweithgynhyrchu carbon isel a'r economi cylchol, cynhyrchu bwyd a thwristiaeth.

Fodd bynnag, risg allweddol sydd wedi'i nodi gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) yw y gallai prosiectau'r Cynllun Twf, yn anfwriadol, *gynyddu* allyriadau carbon rhanbarthol a cholled bioamrywiaeth, er bod pob cyngor awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi ymrwymo i osgoi gwneud hynny.³ Tra bod y Llyfr Gwyrdd sy'n llywio datblygiadau prosiectau yn *awgrymu* cynnal dadansoddiad allyriadau⁴ ac asesiadau effaith cyfalaf naturiol⁵, mae'r rhain yn wirfoddol yn bennaf ac efallai na fyddant yn darparu'r wybodaeth y mae'r PMO a'r Bwrdd Uchelgais ei hangen i wneud penderfyniad llawn a gwybodus. Canlyniad gweithredu heb y wybodaeth hon yw y gallai prosiectau'r Cynllun Twf fod mewn perygl o lesteirio cynghorau unigol a llywodraethau cenedlaethol rhag cyflawni eu hymrwymadau sero net 2030 a bioamrywiaeth, ynghyd â'r posibilrwydd o wneud y Bwrdd yn agored i'r hyn a ganlyn:

- Risg i'w enw da: os bydd y cyhoedd yn ystyried nad yw'r Cynllun Twf yn paratoi'r rhanbarth yn ddigonol am ddyfodol carbon isel a chymryd camau digonol o liniaru yn erbyn unrhyw golledion bioamrywiaeth, efallai y bydd ymateb chwyrn gan y cyhoedd.
- Risg i'r gwaddol: os nad yw isadeiledd y Cynllun Twf yn addas ar gyfer ein dyfodol carbon isel, bydd y canlyniadau i'w teimlo am 30 - 100+ mlynedd (oes yr isadeiledd).
- Risg cyllido posibl: os yw'r Llywodraethau ariannu yn ystyried nad yw'r Bwrdd Uchelgaisa'r PMO yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r hinsawdd a bioamrywiaeth yn ein prosesau sicrwydd prosiect, efallai y byddant yn rhoi'r gorau i'w hariannu.
- Risg Strategol: os nad ydym yn darparu cyfleoedd drwy ein prosiectau i'r rhanbarth ddatblygu arbenigedd mewn gweithrediadau carbon isel, ecolegol gadarn (e.e. dulliau adeiladu carbon isel) efallai y byddwn yn parhau gyda anghydraddoldebau presennol rhwng Gogledd Cymru a rhanbarthau tebyg mewn mannau eraill yn y DU sy'n cyflawni prosiectau gan ddefnyddio'r dulliau / safonau hyn.

1 Gweler Atodiad B - Ymrwymadau Llywodraethau'r DU a Chymru

2 Comisiwn Newid Hinsawdd (2020) Chweched Cyllideb Carbon y DU

3 Gweler Atodiad C - Crynodeb o sefyllfa'r Cyngor a'r Partneriaethau ynghylch yr argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol

4 Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn rhoi canllawiau penodol ar sut y dylai dadansoddwyr feintiol a rhoi gwerth ar y defnydd a wneir o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG). Ei fwriad yw cynorthwyo ag asesu'r cynigion sy'n cael effaith uniongyrchol ar y defnydd a wneir o ynni a'r cyflenwad, ynghyd â'r rhai sy'n cael effaith anuniongyrchol drwy gynllunio, newid defnydd tir, adeiladu neu gyflwyno cynnyrch newydd sy'n defnyddio ynni.

5 Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn cynnig dadansoddiad Galluogi Cyfalaf Naturiol ar gyfer adnabod costau a buddion yn gynnar wrth ddatblygu prosiect.

Mae'r Chweched Cyllideb Carbon Comisiwn Hinsawdd y DU a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn nodi fel a ganlyn: *“The UK needs to increase its ambition on climate change adaptation, as it is not prepared even for the 1.5-2°C world”*. I Ogledd Cymru, bydd newid hinsawdd yn cael ei brofi fel cynnydd yn lefel y môr (sydd wedi'i ragfynegi fel 38cm yn Llandudno erbyn 2080), stormydd, glawiad a llifogydd, tymheredd eithafol, a mwy o blâu ac afiechydon yn effeithio ar gyflenwadau bwyd a bioamrywiaeth.⁶ Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn cael yr effeithiau mwyaf ar isadeiledd (llifogydd, diraddiad), cyflenwadau dŵr cyhoeddus (llygredd, prinder), rheoli tir, ecosystemau ac amaeth (e.e. colli pridd, cynyddau'n cael eu difrodi gan stormydd, da byw) - gyda'r effeithiau yn rhyngweithio i achosi difrod digynsail.⁷


Mae Adroddiad Trysorlys EM 2021 ar *'The Economics of Biodiversity'* yn mynegi'r risg yn glir: *“We are facing a global crisis. We are totally dependent upon the natural world. It supplies us with every oxygen-laden breath we take and every mouthful of food we eat. But we are currently damaging it so profoundly that many of its natural systems are now on the verge of breakdown.”*⁸ Ar gyfer ecosystem benodol, mae'n debygol i gymunedau sydd â bioamrywiaeth gadarn fod yn fwy abl i addasu i newid hinsawdd ac amrywioldeb hinsawdd na chymunedau dirywiedig.

1.1. Allyriadau nwyon tŷ gwyrdd (gan gynnwys carbon)

Mae'r llwybrau ar gyfer y camau gofynnol wedi'u datblygu fesul sector yn rhyngwladol⁹ ac ar gyfer y DU¹⁰ gyda gwaith ar y gweill i adlewyrchu'r llwybrau hynny ar gyfer Cymru a Gogledd Cymru. Fodd bynnag, rhaid gweithredu fesul rhanbarth, fesul tref a fesul prosiect i fodloni targedau ac 'aros' ar y llwybrau a ddisgrifiwyd.

Yn benodol, mae gan y mwyafrif o brosiectau'r Cynllun Twf elfen isadeiledd sylweddol. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyfrifol am bron i 40% o'r allyriadau CO2 ynni byd-eang a chysylltiedig â phrosesau, ac mae'n parhau i gynyddu.¹¹


Mae canllawiau allyriadau'r Llyfr Gwyrdd yn disgrifio sut mae rhyngweithiad polisi a phrosiectau mewn un sector yn gallu effeithio ar allyriadau mewn sectorau eraill, e.e. sut allai penderfyniadau cynllunio ar allyriadau trafndiaeth, ynghyd ag allyriadau o adeiladau. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn llai clir ar sut i reoli prosiect sy'n gyrru allyriadau ar draws sectorau drwy oes gyfan; y prosiect, wrth ddatblygu'r achos busnes a'r broses arfarnu - gweler isod.



6 Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd Cynllun addasu newid hinsawdd i Gymru - Atodlen Dechnegol
 7 Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) *'Interacting Risks In Infrastructure And The Built And Natural Environments – Confidential'*
 Prosiect Rhif: 70051310, Ebrill 2020
 8 *The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review*. Trysorlys EM, Chwefror 2021.
 9 Climate Action Pathways | UNFCCC
 10 Chweched Cyllideb Carbon – Pwyllgor Newid Hinsawdd (theccc.org.uk)
 11 UNEP 2019 Global Status Report for Buildings and Construction Sector

Yn ystod y cylch bywyd hwn, daw'r cyfleoedd gorau ar gyfer lleihau allyriadau o'r camau caffael a phrosesu deunyddiau a'r cam gweithredu.

- i. **Yn arferol, dim ond cyfran o gyfanswm yr allyriadau a gynhyrchir gan brosiect isadeiledd yw'r allyriadau gweithredol**, fel y darlunnir yn Ffigur 2 (allyriadau gweithredol mewn llwyd golau a thywyll). Caiff allyriadau eraill eu cynhyrchu drwy ddarganfod a phrosesu deunyddiau, trafndiaeth ac adeiladu (piws tywyll), ynghyd ag allyriadau a gynhyrchir drwy ddefnyddio adeilad (e.e. allyriadau o ddeunydd insiwleiddio HFC; mewn piws golau). Caiff allyriadau eraill eu cynhyrchu drwy ddymchwel a gwastraff diwedd oes, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diagram isod. Bydd canolbwyntio'n unig ar allyriadau gweithredol yn methu 'enillion hawdd' o liniaru allyriadau ar gamau eraill cylch bywyd ac yn methu cyfleoedd cadwyn gyflenwi leol (e.e. darganfod deunydd yn lleol gyda llai o filltiroedd i gludo).



Ffigur 1: Total whole life carbon emissions breakdown for different building types @ Sturgis Carbon Profiling; © RICS Whole Life Emissions Analysis1

- ii. **Efallai na fydd cyflawni sero net mewn allyriadau gweithredol un unig yn rhoi'r llwybr gwerth am arian gorau.** Mae angen arbenigedd allanol i gadarnhau'r fethodoleg asesu fwyaf priodol, ond mae'r fframwaith BREEAM enwog yn rhoi enghraifft ddefnyddiol, yn benodol gan bod nifer o bartneriaid prosiect wedi cyflawni prosiectau i safonau *Good* i *Excellent* BREEAM yn flaenorol (gweler Atodiad D). Fodd bynnag, nid yw dyfarniad BREEAM o *Very Good* i *Excellent* ond yn cyflawni gostyngiad o 22% mewn allyriadau gweithredol ar gyfartaledd, gyda chost ychwanegol <1%, y gellir ei hadennill dros 5-10 mlynedd. Mae'n bosib nad yw dyfarniad BREEAM o *Outstanding* ond yn cyflawni gostyngiad o 66% mewn allyriadau gweithredol, gyda chostau ychwanegol o oddeutu 10%, y gellir eu adennill dros 25 mlynedd. Gallai'r dull hwn arwain at wariant sylweddol ond at fethiant i gyflawni'r uchelgais o sero net mewn gweithrediadau, a pheidio â llwyddo i gael yr 'enillion rhwydd' a ddisgrifir uchod.

Defnyddir BREEAM yma fel enghraifft gan bod costau a deilliannau wedi'u hastudio dros amser ac ar gyfer gwahanol strwythurau, ond mae eu safbwynt ar allyriadau yn dal i ddatblygu¹² ac mae'n ymddangos y gallai dulliau amgen gyflawni uchelgais y Bwrdd Portffolio yn fwy cost effeithiol a darparu gwell fframwaith i'w ddadansoddi. Bydd angen arbenigedd allanol i gadarnhau'r arferion gorau yn y maes hwn, ond mae'r opsiynau yn cynnwys:

- PassiveHouse – e.e. Adeilad PassiveHouse Annomestig Cyntaf y DU
- [CEEQUAL for Infrastructure - e.e. Glan y Môr Bae Colwyn](#)

I ymdrin â'r risg ymwithiol hon o gynyddu allyriadau'n anfwriadol ar draws y portffolio, mae'n debygol bod angen cynnal dadansoddiad Allyriadau Oes Gyfan (gweler Ffigur 1) ar gyfer yr holl brosiectau er mwyn

12 Dull BREEAM tuag at Sero Net <https://sway.office.com/JL0etxldfQUPj12k?ref=Link>

darparu dealltwriaeth o ffynonellau allyriadau a'r opsiynau ar gyfer eu lliniaru. Gellir darparu hyn drwy weithredu safon RICS.¹³

1.2. Bioamrywiaeth

Bu i bapur a gyhoeddwyd ar ddechrau mis Chwefror 2021 gan yr *UK National Infrastructure Commission*¹⁴ a hysbyswyd gan y *Dasgupta Review 'The Economics of Biodiversity'*¹⁵ ganfod bod datblygu tai ac isadeiledd (yn enwedig isadeiledd trafndiaeth a gwasanaethau) yn arwain at golli cynefinoedd, darnio cynefinoedd a diraddio cynefinoedd. Mae'n cysylltu'r canfyddiad hwn â'r dirywiad dramatig mewn cyfalaf naturiol yn y DU - dirywiad o 13% mewn niferoedd cyfartalog rhywogaethau ers 1970, a 15% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu'n llwyr. Mae'r safbwynt hwn yn unol â chanfyddiadau DEFRA bod cynlluniau creu cynefinoedd o'r newydd yn sgil rheoliadau, dros y blynyddoedd diweddar, wedi arwain at ddeilliannau annibynadwy,¹⁶ sy'n ganfyddiad y maent wedi gweithredu arno i lansio polisi mwy uchelgeisiol o enillion net bioamrywiaeth o 10% o bob cynllun datblygu drwy'r senarios a amlinellir yn Ffigur 1.

Hefyd, wedi ryddhau ym mis Chwefror 2021, mae canllawiau Polisi Cynllunio Cymru 11 yn cryfhau'r ymrwymiad tuag at 'fudd net i fioamrywiaeth': Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth.

Mae cysylltiad anorfod rhwng newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth:

- Mae cymunedau sydd â bioamrywiaeth gadarn yn debygol o allu addasu'n well i newid yn yr hinsawdd ac amrywioldeb yn yr hinsawdd na rhai tlawd.
- Gall gwella bioamrywiaeth safle liniaru neu wrthbwysu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n arwain at newid yn yr hinsawdd.

2. Ffactorau i'w hystyried ynghylch y datganiad sefyllfa arfaethedig

Mae holl gynghorau awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi ymrwmo i weithio tuag at sero net ac ymdrin â cholledion bioamrywiaeth, ynghyd â sawl partner yn y Cynllun Twf. Hefyd, mae nifer o arweinwyr cynghorau Gogledd Cymru wedi ymrwmo'n gyhoeddus i sicrhau bod newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais a bod penderfyniadau'r Cynllun Twf yn ystyried y materion hyn.

Dylai'r ffactorau i'w hystyried wrth gytuno ar ddatganiad sefyllfa gynnwys:

- Graddfa ein rheolaeth a'n dylanwad
 - Mae ymdrin ag allyriadau gweithredol ac chorfforedig a chwrdd â safonau manteision net bioamrywiaeth o fewn ein rheolaeth.
- Ein hymrwymiad yn y Ddogfen Gynnig yw "cyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol".
 - Mae lleihau allyriadau a gwyrddroi colledion bioamrywiaeth yn elfennau allweddol o gynaliadwyedd, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: "datblygiad sydd yn bodloni anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain."

13 <https://www.rics.org/globalassets/rics-website/media/news/whole-life-carbon-assessment-for-the--built-environment-november-2017.pdf>

14 *National Infrastructure Commission (2021) 'Natural Capital And Environmental Net Gain: A Discussion Paper'*

15 *The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review*. Trysorlys EM, Chwefror 2021.

16 DEFRA: Achos Busnes ar gyfer Enillion Net Bioamrywiaeth (2019) mae cynlluniau creu cynefinoedd o'r newydd yn adrodd am gyfraddau llwyddiant sy'n amrywio o 0% (lle mae llwyddiant yn cael ei ddiffinio fel cynefinoedd sy'n gwbl weithredol) i 74% yn yr hirdymor, sy'n gynlluniau mantoli sydd wedi sefydlu'n dda. Mae astudiaethau eraill wedi canfod cyfraddau llwyddiant is o rhwng 6% ac 20% https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/839610/net-gain-ia.pdf

- Gyda rhanbarthau eraill yn brwydro i ymdrin â'r mater hwn ac adeiladu arbenigedd mewn technolegau carbon isel ledled cadwyni cyflenwi rhanbarthol - gallai oedi i Ogledd Cymru ymestyn anghydraddoldeb rhwng ein rhanbarth ac mewn mannau eraill yn y DU, a chyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth hirdymor i weithwyr rhanbarthol (e.e. dulliau adeiladu carbon isel / amaethyddiaeth, dulliau i leihau ynni/allyriadau tra'n ymestyn capasiti digidol, neu hybu capasiti rhanbarthol o ran gwella bioamrywiaeth).
- Cydnabyddiaeth gyhoeddus eang a chynyddol bod cynaladwyedd yn gofyn am weithredu uchelgeisiol a phenodol ar y defnydd a wneir o ynni, allyriadau a gwella bioamrywiaeth ar draws pob sector.
 - Mae Maniffesto Gweithgynhyrchu Llywodraethau'r DU a Chymru yn blaenoriaethu'r mater, e.e. un o'r tri prif ddeiliant o Gynllun Gweithgynhyrchu Cymru yw: "Economi werdd y bydd gofyn iddi fod yn gylchol iawn, lle mae adnoddau yn cael eu cadw o fewn yr economi, gan ychwanegu at werth yr economi a chan osgoi gwastraff. Mae'r math hwn o economi yn annatod i gymdeithas carbon isel, felly mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith carbon isel a all wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, prosiectau ynni adnewyddadwy, meddwl/ dylunio ar lefel system gyfan a chartrefi cynaliadwy.."
 - Mae partneriaid sector preifat megis Airbus yn sefydlu Mission Possible (Ionawr 2021), yn ymrwymo diwydiannau sy'n ddibynnol ar danwydd ffosil i sero net; gan gynyddu'r gydnabyddiaeth gan gwmnïau bwyd mawr (e.e. Nestle) o ddibyniaeth eu cadwyn gyflenwi ar fioamrywiaeth.
- Mae cyllid yn canolbwyntio fwyfwy, ac ar gael ar gyfer gwaith yn y maes hwn:
 - E.e. Bydd cynllun newydd uchelgeisiol o ddatblygu parth diwydiannol sero net yn Ne Cymru yn elwa o bron i £20 miliwn o gyllid Llywodraeth y DU ac fe allai greu 5,000 o swyddi newydd (cyhoeddwyd mis Mawrth 2021) <https://businessnewswales.com/20-million-funding-for-south-wales-green-cluster/>
- Ymrwymadau gan asiantaethau tebyg yn ein rhanbarth, yn enwedig Pwerdy'r Gogledd a chynlluniau twf rhanbarthol/dinasoedd eraill.
 - Mae rhai awdurdodau lleol y DU (e.e. Brighton and Hove, bwrdeistrefi Llundain) eisoes yn gofyn am ddull Dadansoddiad Allyriadau Oes Gyfan
 - Mae'r [West Yorkshire Combined Authority](#) yn ymdrin â'r un cwestiynau.

3 Risgiau, cyfleoedd, costau a buddion

Mae'r risgiau allweddol o beidio â gweithredu fel hyn yn cynnwys

- Risg i'w enw da: os bydd y cyhoedd yn ystyried nad yw'r Cynllun Twf yn paratoi'r rhanbarth yn ddigonol am ddyfodol carbon isel a chymryd camau digonol o liniaru yn erbyn unrhyw gollodion bioamrywiaeth, efallai y bydd ymateb chwyrn gan y cyhoedd.
- Risg i'r gwaddol: os nad yw isadeiledd y Cynllun Twf yn addas ar gyfer ein dyfodol carbon isel, bydd y canlyniadau i'w teimlo am 30 - 100+ mlynedd (oes yr isadeiledd), h.y. eliffantod gwyn yn fuan wedi'r adeiladu.
- Risg cyllido: os yw'r Llywodraethau ariannu yn ystyried nad yw'r Bwrdd Uchelgais a'r PMO yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r hinsawdd a bioamrywiaeth yn ein prosesau sicrwydd prosiect, efallai y byddant yn rhoi'r gorau i'w hariannu.
- Risg Strategol: os nad ydym yn darparu cyfleoedd drwy ein prosiectau i'r rhanbarth ddatblygu arbenigedd mewn gweithrediadau carbon isel, ecolegol gadarn (e.e. dulliau adeiladu carbon isel) efallai y byddwn yn parhau gyda anghydraddoldebau presennol rhwng Gogledd Cymru a rhanbarthau tebyg mewn mannau eraill yn y DU sy'n cyflawni prosiectau gan ddefnyddio'r dulliau / safonau hyn.

Risgiau a goblygiadau posib o fwrw ymlaen

- Gallai cynnydd posib mewn cost olygu nad yw prosiectau yn fforddiadwy i noddwyr y prosiect, gan arwain at angen i leihau sgôp y prosiect neu sicrhau cyllid ychwanegol. Gellid gosod y costau ychwanegol yn erbyn yr arbedion, dros amser.
- Efallai y bydd angen gostwng sgôp a nifer cyffredinol y prosiectau sydd i'w cyflawni drwy'r Cynllun Twf, fel bod modd cwrdd ag unrhyw ofynion ariannu ychwanegol. Gallai hyn leihau effaith gyffredinol y Cynllun Twf (e.e. llai o swyddi).
- Gallai bod oedi yn amserlenni datblygu'r prosiectau fel bod modd i brosiectau gwrdd â gofyn y Bwrdd Uchelgais.
- Efallai na fydd y farchnad yn medru cyflawni ein dyheadau. Er enghraifft, efallai na fydd modd i'r sector gyflwyno'r cam adeiladu mewn dull sero net.

Buddion a chyfleoedd allweddol o fwrw ymlaen

- Y cyfle i chwarae rhan arweiniol yn y trosglwyddiad i ddyfodol carbon isel, gan fod yn esiampl i ranbarthau eraill ymweld â ni a dysgu gennym.
- Drwy gyfuno mesurau effeithiolrwydd ynni a thechnolegau carbon isel a di-garbon (LZC), gellir gwneud arbedion sylweddol dros oes y prosiect, e.e. Gellir cyflawni arbedion o 44% mewn allyriadau carbon am gynnydd o ddim ond 0.26% mewn costau cyfalaf, gyda hyn yn talu'n ôl dros 10 mlynedd.
- Mae buddsoddi mewn gwella bioamrywiaeth yn denu arian sy'n dod ar gael fwyfwy gan gwmnïau dŵr, broceriaid carbon, datblygwyr bondiau ecwiti, ac ati sy'n ceisio mantoli eu hallyriadau.
- Mae gweithredu ystyrlon ac uchelgeisiol ar y ddau fater hwn yn ategu gwerthoedd craidd Gogledd Cymru o ran ymgysylltu â'r byd naturiol, dilysrwydd, balchder yn ein gwaddol.
- Bydd cydio'n gyfan gwbl mewn dyfodol carbon isel, cynaliadwy, yn rhoi Gogledd Cymru o flaen rhanbarthau eraill o ran swyddi, sgiliau, cydnerthedd - gan gryfhau'r cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Un strategaeth ar gyfer lleihau allyriadau fydd cael cadwyni cyflenwi lleol i isafu costau trafndiaeth, cynyddu'r cyfleoedd am gontractau lleol, cyflenwyr deunyddiau lleol, ac ati, gan yrru arloesedd.

Costau dangosol a'r goblygiadau adnoddau

- Byddai'r gost ychwanegol ar gyfer y PMO yn cynnwys cefnogaeth i adnabod y teclynau mwyaf priodol ar gyfer dadansoddi, yn seiliedig ar brofiad cynghorau eraill (sydd hefyd yn ystyried hyn ar yr un pryd) - oddeutu £5k
- Byddai'r costau ychwanegol i noddwyr y prosiect (yn cynnwys y Bwrdd Uchelgais), yn cynnwys
 - Costau ymgynghorwyr i gynnal y dadansoddiad allyriadau a bioamrywiaeth. Byddai angen cynnal elfen o ddadansoddi fel rhan o'r caniatâd beth bynnag, felly mae'n debygol mai cost ychwanegol fyddai hyn (£2-5k).
 - Costau dylunio datrysiadau i leihau a lliniaru yn erbyn allyriadau ac effeithiau bioamrywiaeth (amrywio yn ôl prosiect).

Atodiad A:

Rhestr o'r termau allweddol

<p>Allyriadau nwyon tŷ gwydr</p>	<p>Mae nwyon tŷ gwydr ("GHG") yn nwy atmosfferig sy'n amsugno gwres a chynhesu'r blaned. Y prif rai yw anwedd dŵr (H₂O), carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), ocsid nitrws (NO₂), osôn (O₃), clorofflwrocarbonau a hydrofflwrocarbonau. Carbon deuocsid yw'r GHG mwyaf cyffredin sy'n cael ei allyrru yn sgil amgylchedd dynol. Gellir mynegi GHG ar y cyd fel rhif sengl gan ddefnyddio'r term "cyfwerth â charbon deuocsid" (CO₂e).¹⁷</p>
<p>Allyriadau carbon deuocsid</p>	<p>Mae allyriadau carbon deuocsid neu allyriadau CO₂ yn allyriadau sy'n dod o losgi tanwydd ffosil a gweithgynhyrchu sment; maent yn cynnwys carbon deuocsid a gynhyrchir drwy ddefnyddio tanwyddau solid, hylif a nwy, ynghyd â fflachio nwy. Mae carbon deuocsid (CO₂) yn nwy di-liw, di-arogl ac anwenwynig a ffurfir drwy hylosgi carbon a resbiradaeth organebau byw ac fe'i ystyrir yn nwy tŷ gwydr.</p>
<p>Carbon corfforedig</p>	<p>Carbon corfforedig yw cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) (a symleiddir yn aml i "carbon"), a gynhyrchwyd i ddarparu ased adeiledig. Mae hyn yn cynnwys allyriadau a achosir gan echdynnu, gweithgynhyrchu/prosesu, trafndiaeth a chydod pob cynnyrch ac elfen mewn ased. Mewn rhai achosion (yn ddiabynnol ar ffin yr asesiad), gall hefyd gynnwys cynnal a chadw, amnewid, dadadeiladu, gwaredu ac agweddau diwedd oes y deunyddiau a'r systemau sy'n ffurfio'r ased. Mae'n eithrio allyriadau gweithredol yr ased.¹⁸</p>
<p>Allyriadau carbon gweithredol</p>	<p>Carbon gweithredol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r allyriadau carbon deuocsid a nwyon cynhesu byd-eang eraill yn ystod gweithrediad yr adeilad pan fo'n cael ei ddefnyddio.</p> <p>Cyfyd allyriadau o weithgareddau defnyddio ynni gan gynnwys cynhesu, oeri, awyru a goleuo'r adeilad, y gelwir yn allyriadau 'rheoledig' dan Ran L y Rheoliadau Adeiladu, ac allyriadau 'afreoledig' presennol eraill, gan gynnwys y defnydd a wneir o declynnau a llwythi plygiau ynni bychan megis TG.</p>
<p>Asesiad cyfalaf naturiol.</p>	<p>Mae dull cyfalaf naturiol yn un sy'n ystyried natur fel ased, neu gyfres o asedau sy'n fuddiol i bobl (gweler y ffigur isod). Mae gallu asedau cyfalaf naturiol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau yn cael ei bennu gan eu hansawdd, eu nifer a'u lleoliad. Mae cael dealltwriaeth o natur fel ased sy'n darparu llif o wasanaethau i gyflawni buddion yn rhoi i ni fframwaith i'w reoli'n dda er mwyn cyflawni ar gyfer anghenion cymdeithas. Gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yn rhwyddach sut mae buddsoddi mewn asedau amgylcheddol yn cyfrannu at amcanion ehangach y gymdeithas a chyfaddawdu sy'n effeithio ar yr ansawdd neu ar ansawdd yr asedau. Yn ogystal, mae'r fframwaith yn cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o sut all polisiâu gael effeithiau anfwriadol ar yr amgylchedd sy'n arwain at effeithiau ar bobl a busnesau.</p> <div data-bbox="384 1532 1326 1848"> <p>NATURAL CAPITAL IN ACTION</p> <p>The diagram illustrates the flow from natural capital stocks to physical flows, which then generate benefits and values. It includes icons for woodland, trees, water storage, flow regulation, lower flood risk, and reduced damage.</p> </div>

17 <https://law.gov.wales/environment/energy-and-climate-change/Greenhousegasemissions/?lang=en#/environment/energy-and-climate-change/Greenhousegasemissions/?tab=overview&lang=en>

18 <https://www.ukgbc.org/sites/default/files/UK-GBC%20EC%20Developing%20Client%20Brief.pdf>

Bioamrywiaeth	<p>Mae bioamrywiaeth yn cael ei ddiffinio fel ‘<i>the variability among living organisms from all sources including terrestrial, marine and other aquatic ecosystems and the ecological complexes of which they are part</i>’.¹⁹ Bioamrywiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n greiddiol i gyflwr ecolegol ac ansawdd yr ecosystemau sy'n cefnogi'r gwasanaethau a'r buddion a ddarperir i bobl • mae'n tanategu cydnerthedd ecosystemau rhag sioc ac fe all ddarparu gwerth yswiriant. <p>Fel y nodir yn <i>The Dasgupta Review ‘The Economics of Biodiversity’</i>, adolygiad dan arweiniad Trysorlys EM, dylid rheoli a buddsoddi'n weithredol mewn cyfalaf naturiol yn yr un modd ag unrhyw ased arall drwy reoli'r stoc cyffredinol o asedau a chynnal bioamrywiaeth yn ein portffolio cyfalaf naturiol.²⁰ Yn sgil y rolau amrywiol hyn, gellir diystyru gwerth bioamrywiaeth hyd yn oed mewn asesiadau cyfalaf naturiol.²¹</p>
<p>Budd net i fioamrywiaeth (Cymru)</p> <p>Biodiversity net gain (Lloegr)</p>	<p>Mae budd net i fioamrywiaeth yn weithgareddau cadwraeth a ddyluniwyd i gyflawni buddion bioamrywiaeth i wneud iawn am golledion mewn ffordd fesuradwy gan ddefnyddio teclynnau megis metrig Bioamrywiaeth 2.0. I ddangos budd net i fioamrywiaeth (<i>biodiversity net gain</i>), bydd angen i ddatblygwyr asesu safleoedd datblygu posib yn erbyn metrig bioamrywiaeth safonol i feintioli sut y cyflawnir buddion net i fioamrywiaeth. Yna, rhaid cyflawni budd net i fioamrywiaeth drwy fesurau lliniaru ar y safle, creu cynefinoedd o'r newydd lleol neu ddulliau eraill.</p> <p>Datgan diweddariad Chwefror 2021 i Bolisi Cynllunio Cymru: Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiad achosi colled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddo ddarparu <i>budd net i fioamrywiaeth</i>. Wrth wneud, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau hefyd, yn benodol ystyried yr amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau; y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau yn cynnwys eu strwythur a'u gweithrediad; a hyblygrwydd ecosystemau.</p>

19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol

20 Dasgupta, P (2021), *The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review*. Trysorlys EM

21 Department for Environment, Food & Rural Affairs (2020), *Enabling a Natural Capital Approach*. Rhan o'r Llyfr Gwyrdd

Cynllun Twf Cwestiynau a Ofynnir yn Aml - Newid Hinsawdd

A yw'r papur hwn ynghylch cytuno ar safbwynt rhanbarthol ar newid hinsawdd?

Na, mae'r papur hwn ynghylch cytuno ar safbwynt ar gyfer cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf yn unig.

Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?

Rydym yn ceisio cyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect yn nhermau lleihau allyriadau ac effeithiau ar fioamrywiaeth, i gefnogi ymdrechion cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol. Yn syml, rydym am i'n prosiectau gyflawni'r asedau neu'r adeiladau mwyaf effeithlon o ran ynni â phosib, i leihau ôl-troed carbon adeiladwaith a chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

Beth yw carbon gweithredol?

Carbon gweithredol yw'r swm o garbon deuocsid a gaiff ei allyrru yn ystod cyfnod gweithredol neu mewn defnydd adeilad neu ased. Er enghraifft, goleuo, gwresogi a chynnal a chadw.

Mae adeiladau gweithredol sero net yn effeithlon iawn o ran ynni gyda'r holl ynni sy'n weddill o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle a/neu oddi ar y safle.

Beth yw carbon corfforedig?

Carbon corfforedig yw'r term sy'n cynnwys yr holl garbon a gaiff ei allyrru yn ystod oes adeilad neu ased. Yn ogystal â charbon gweithredol, mae hyn yn cynnwys allyriadau o ddarganfod a phrosesu deunyddiau, trafnidiaeth ac adeiladu ynghyd ag allyriadau a gynhyrchir o ddymchwel a gwastraff ar ddiwedd oes.

Beth yw enillion net bioamrywiaeth?

Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn "ddull o ddatblygu sy'n gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell nag oedd cyn hynny." Wrth gymhwyso egwyddorion enillion net bioamrywiaeth, anogir datblygwyr i ddwyn cynlluniau ymlaen sy'n darparu cynnydd cyffredinol mewn nodweddion ecolegol a chynefin naturiol ar y safle, mewn safleoedd gerllaw neu drwy 'offsets' (h.y. talu i wella bioamrywiaeth yn rhywle arall).

Beth yw budd net i fioamrywiaeth?

Golyga hyn yr un peth ag enillion net bioamrywiaeth, ond dyma'r term a ddefnyddir yng Nghymru.

Pam ydym ni'n ceisio lleihau allyriadau a chynyddu bioamrywiaeth?

Wrth i lefelau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydyr eraill gynyddu, caiff mwy o wres ei "drapio" yn atmosffer y ddaear ac mae tymereddau byd-eang yn cynyddu. Mae'r 'cynhesu byd-eang' yma yn achosi newidiadau sylweddol yn amseriad a hyd y tymhorau ynghyd ag amllder tywydd eithafol - llifogydd, sychder, corwyntoedd a thanau gwyllt. Bydd effeithiau newid hinsawdd ar y Gogledd yn cynnwys cynnydd yn lefelau'r môr ac effeithiau ar amaethyddiaeth a seilwaith yn sgil cynnydd mewn

tywydd eithafol. Mae'n debygol y bydd cymunedau sydd â bioamrywiaeth gadarn fod yn fwy abl i addasu i newid hinsawdd ac amrywioldeb hinsawdd na chymunedau dirywiedig.

Beth fydd yr effaith ar brosiectau?

Mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Er bod goblygiadau posib yn nhermau cost a sgôp, mae cyfleoedd sylweddol hefyd. Cydnabyddir bod prosiectau ar gamau gwahanol yn eu datblygiad. Bydd prosiectau sydd yng nghamau cynnar eu datblygiad yn medru gwreiddio'r datganiad sefyllfa yn nyluniad a datblygiad y cynigion hynny. Mae'n bosib na fydd prosiectau eraill, mwy aeddfed, yn medru bodloni'r holl ddyheadau heb gost ychwanegol sylweddol. Yn yr achosion hyn, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer y prosiect.

Sut fydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried y datganiad sefyllfa hwn wrth wneud penderfyniadau?

Bydd y Cyfarwyddwr Portffolio yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i roi'r prosesau angenrheidiol yn eu lle i danategu'r datganiad sefyllfa hwn. Bydd aelodau'r Bwrdd Uchelgais yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad deallus ar achosion busnes prosiectau wedi ystyried effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y prosiectau ar y Gogledd.

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

26 MAWRTH, 2021

TEITL: *Strategaeth Ynni Gogledd Cymru Ddrafft*

AWDURON: *Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni)*
Rhys Horan (Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Cyflwyno Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft i'w chadarnhau, ennyn cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf arfaethedig, ac arddangos ei bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiad rhanbarthol i her newid hinsawdd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cadarnhau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft, ac yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer y cynllun gweithredu.
- 2.2. Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno i dderbyn adroddiad pellach ar y cynllun gweithredu drafft.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'r strategaeth bresennol yn darparu gweledigaeth lefel-uchel, meysydd blaenoriaeth, gwaith modelu ynni ynghyd â dadansoddiad economaidd fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun gweithredu arfaethedig.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES), Awdurdodau Lleol, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru (LIC) a phartneriaid wedi cydweithio i baratoi drafft gyfredol Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.
- 4.2. Paratowyd strategaethau ynni ar gyfer y pedwar rhanbarth yng Nghymru, ac maent yn bodoli eisoes mewn nifer o ranbarthau yn Lloegr.
- 4.3. Mae Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel y Bwrdd Uchelgais (Is-Grŵp Ynni'r Bwrdd Uchelgais yn flaenorol) wedi cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth o'r cychwyn, ac mae wedi adolygu'r drafft diweddaraf.
- 4.4. Mae'r strategaeth ynni ddrafft (y cyfeirir ati yma fel 'y strategaeth') wedi'i rhannu eisoes gyda Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais ar 12 Chwefror, 2021 a derbyniodd gefnogaeth eang. Yn ogystal, rhannwyd y strategaeth gyda'r Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol ar 26 Chwefror, 2021 ac fe'i chyflwynir yn awr i'r Bwrdd Uchelgais i'w chadarnhau.

- 4.5. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw amlinellu llwybr posib ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni, tra'n sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd wrth drawsnewid i economi carbon isel.
- 4.6. Mae'r trawsnewid hwn yn cynnig camau adferol economaidd sylweddol ynghyd â chyfleoedd am dwf (gweler **atodiad 1**). Hyd yn oed cyn Covid-19, yr oedd Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r economi carbon isel dyfu bedair gwaith yn gynt na gweddill yr economi. Ar ôl cyhoeddiad diweddar Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ynni a'r Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd, mae'r cyfleoedd posib ar gyfer yr economi wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy.
- 4.7. Mae'r strategaeth (gweler **atodiad 2**) yn amlinellu achos strategol cadarn am system ynni blaengar yng Ngogledd Cymru, ac mae'n cyd-fynd â Phrosiect Ynni Lleol Blaengar y Cynllun Twf a'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ehangach, fydd yn gyfrwng allweddol i weithredu'r strategaeth yn y lle cyntaf. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol datblygol.
- 4.8. Bydd cael gafael ar y buddsoddiad angenrheidiol i weithredu'r weledigaeth arfaethedig yn her sylweddol, a bydd y cam nesaf o ddatblygu cynllun gweithredu yn cychwyn y broses o adnabod yr ymyraethau rhanbarthol a'r anghenion sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth.
- 4.9. Mae rhanbarthau eraill wedi defnyddio eu strategaeth i gyflwyno achos dros fuddsoddiad pellach yn eu rhanbarthau (e.e. mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cadarnhau ei Strategaeth Ynni ac wedi defnyddio'r strategaeth fel sail ar gyfer prosiectws 'levelling up' i Lywodraeth y DU).
- 4.10. Mae'n amlwg bod gyrwyr economaidd yn llywio gweithgaredd yn y system ynni, ond mae newid hinsawdd hefyd yn yrrwr arwyddocaol yn yr angen i gyflwyno system ynni ar gyfer y dyfodol. Amcangyfrifir bod y system ynni yng Ngogledd Cymru (sef yr ynni sy'n cael ei greu a'i ddefnyddio gan y sector ynni) yn gyfrifol am oddeutu 70% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwyrdd. Felly, byddai cyflawni'r weledigaeth ynni yn gyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- 4.11. Bydd y strategaeth yn ategu ac yn cefnogi gwaith sydd eisoes ar y gweill yn yr holl awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i ddatgarboneiddio eu hallyriadau sefydliadol (mewnol). Bydd y strategaeth yn cynorthwyo i gael mynediad at ffynonellau cyllid er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.
- 4.12. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar bum egwyddor craidd, sy'n cyd-fynd ag amcanion rhaglen carbon isel y Bwrdd Uchelgais:
- dod yn arweinydd ym maes cynhyrchu ynni carbon isel
 - cydweithio
 - cynnal golwg aml-fector systemau cyfan
 - croesawu economi sero carbon net
 - addasu ar gyfer y dyfodol ac arloesedd
- 4.13. Mae gan y strategaeth bum pennod, Gweledigaeth; Blaenoriaethau; System ynni, defnydd ynni ac allyriadau; Dyfodol ynni a'r economi; Camau nesaf.

GWELEDIGAETH

- 4.14. Mae pennod 1 yn nodi'r weledigaeth sydd wedi'i pharatoi yn dilyn cyfraniadau gan nifer o ran-ddeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r weledigaeth yn datgan:

'Cyflawni'r buddion economaidd, cymdeithasol, ecolegol a llesiant lleol mwyaf wrth drosglwyddo i economi net sero, a bod yn allforiwr net o drydan carbon isel drwy gydweithrediad rhanbarthol ac ar draws ffiniau'.

BLAENORIAETHAU

- 4.15. Mae pennod 2 yn disgrifio pedair blaenoriaeth sydd wedi eu creu yn dilyn gweithdai, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu'r dogfennau polisi allweddol. Y blaenoriaethau a adnabuwyd oedd:
- Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol er mwyn bod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni
 - Bod yn arweinydd byd-eang mewn technoleg ynni gwynt ar y môr a morol
 - Gwella effeithiolrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio stoc adeiladau gogledd Cymru
 - Cyflawni symudiad at drafnidiaeth carbon isel

SYSTEM YNNI, DEFNYDD YNNI AC ALLYRIADAU

- 4.16. Mae pennod 3 yn nodi data a gwybodaeth gefndirol defnyddiol am y system ynni bresennol.
- 4.17. Mae Gogledd Cymru eisoes yn cynhyrchu cyfwerth ag 82% o'i ddefnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy lleol.
- 4.18. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth ynni a'r targedau i fod yn sero net erbyn 2050, mae angen i Ogledd Cymru leihau'r allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth ffordd, masnach a diwydiant, ynghyd â gwresogi ac ynni domestig o 55% erbyn 2035 (o gymharu â'r lleihad 'busnes fel arfer' o 22%).
- 4.19. Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at yr her sylweddol sy'n wynebu'r rhanbarth i gyflawni'r lleihad, ac mae'n amlinellu un senario posib ar gyfer Gweledigaeth System Ynni, e.e. 67,000 o gartrefi i symud o ddefnyddio dulliau gwresogi tanwydd ffosil, 260,000 o geir trydan, 2.8GW o wynt alltraeth, 310MW o wynt ar y tir, 1GW morlyn llanw ac ati (DS mae nifer o sefyllfaoedd allai gyflawni'r weledigaeth).
- 4.20. Bydd sawl senario gwahanol yn dod i'r amlwg wrth i'r technolegau ddatblygu, a phan ddaw mwy o eglurder ar y polisiau a'r trefniadau ariannu.

EFFAITH ECONOMAIDD

- 4.21. Mae pennod 4 yn manylu ar yr effeithiau economaidd a ddaw yn sgil gwireddu'r weledigaeth system ynni. Mae'r rhain wedi'u hasesu o ran creu swyddi, gwerth ychwanegol crynswth (GVA) a'r buddsoddiad (gwariant) sydd ei angen ar gyfer y trawsnewid ynni, o'i gymharu â'r senario 'busnes fel arfer'.
- 4.22. Mae'r dadansoddiad economaidd yn dangos bod angen buddsoddiad o oddeutu £15 biliwn er mwyn cyflawni'r weledigaeth system ynni erbyn 2035. Disgwylir i'r buddsoddiad ddod o ffynonellau niferus, gan gynnwys y sectorau preifat a chyhoeddus.
- 4.23. Mewn perthynas â swyddi, amcangyfrifir y byddai angen 24,000 net o swyddi ychwanegol ar gyfer senario'r weledigaeth system ynni, er mwyn cyflymu'r broses o weithredu'r technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a'r gwelliannau cysylltiedig mewn effeithlonrwydd ynni. Mae'r swyddi hyn yn gysylltiedig â chynnydd o oddeutu £2.4 biliwn mewn GVA (wedi'i ddisgowntio o 3.5% dros y cyfnod 2020-2035).

CAMAU ARFAETHEDIG NESAF

4.24. Mae Pennod 5 o'r strategaeth yn cynnig y camau nesaf, sef:

- Datblygu Cynllun Gweithredu – gyda chefnogaeth gan WGES, bydd y cynllun gweithredu yn trawsnewid yr her i ymyraethau y gellir eu gwireddu, wedi'i arwain gan grŵp llywio neu grŵp tasg a gorffen traws-sector. Bydd y broses yn caniatáu i'r rhanbarth adnabod y meysydd lle mae gwir botensial am ymyraethau ar y cyd, a'r meysydd lle bydd angen i eraill arwain, e.e. Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Ofgem, SPEN, Trafnidiaeth Cymru ac ati. Bydd rhai meysydd lle bydd y rhanbarth yn unig yn dymuno dylanwadu arnynt a/neu fonitro.
- Llywodraethu - y Bwrdd Uchelgais, LIC a WGES i gytuno ar lywodraethu cymesurol ar gyfer y strategaeth i sicrhau bod trefniadau adrodd a monitro effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r gallu i gydlynu. Ym mwyafrif rhanbarthau Lloegr, mae'r Partneriaethau Menter Lleol (LEP) wedi arwain ar ddatblygu'r strategaethau ynni rhanbarthol o ganlyniad i'r cyfleoedd amlwg am dwf economaidd, a natur traws-sector mwyafrif yr ymyraethau tebygol.
- Strategaeth gyfathrebu ehangach – gyda chefnogaeth gan WGES, adeiladu cefnogaeth ar gyfer y strategaeth ymysg rhanddeiliaid ehangach.

4.25. Mae LIC wedi cadarnhau y bydd WGES ar gael i gefnogi'r camau nesaf arfaethedig ac yn darparu adnodd i gydlynu. Mae gwaith cychwynnol mewn rhanbarthau eraill yn amcangyfrif y bydd angen oddeutu 25 diwrnod o adnodd swyddog WGES ynghyd ag oddeutu 13 diwrnod o adnodd rhanbarthol/Bwrdd Uchelgais er mwyn datblygu drafft cychwynnol y cynllun gweithredu dros gyfnod i'w gytuno. Bydd angen ategu hyn gan gyfraniadau a chyfraniadau gan amrediad eang o randdeiliaid pwysig megis y sector preifat, SP Energy Networks, Wales and West Utilities, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Trafnidiaeth Cymru ac ati.

CRYNODEB

4.26. Mae Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel y Bwrdd Uchelgais wedi bod yn allweddol yn natblygiad y strategaeth, gan gynnig her gadarn ac adeiladol.

4.27. Mae Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais a'r Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol wedi darparu cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf arfaethedig.

4.28. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn gadarn gyda newid hinsawdd, twf economaidd a'r uchelgais adfer economaidd yn sgil Covid-19. Er bod graddfa'r her yn sylweddol, mae'r cyfleoedd economaidd i'r rhanbarth yn anferth.

4.29. Bydd y strategaeth yn ceisio cyfrannu at, a chefnogi'r cynlluniau lleol i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus (e.e. drwy helpu i ddeall a datgloi isadeiledd y grid, denu atebion arloesol a chyllid ac ati).

4.30. Bydd y cynllun gweithredu yn galluogi i'r rhanbarth ddod i ddeall ac adnabod yr amrediad o ymyraethau rhanbarthol sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth. Bydd adnoddau WGES ar gael i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

4.31. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn fodd o gyfrannu a chefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol ar draws y meysydd blaenoriaeth i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, UK Research and Innovation (UKRI) ac eraill (e.e. gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu). Mae'r strategaeth

eisoes wedi bod yn hynod o bwysig wrth ddarparu gwybodaeth ar lefel ranbarthol i fwydo i Achos Busnes Rhaglen Ynni Carbon Isel y Cynllun Twf.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim risgiau ariannol i'w nodi.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Dim goblygiadau cyfreithiol i'w nodi.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi'r camau nesaf arfaethedig a darparu capasiti cydlynu. Mae gwaith cynnar mewn rhanbarthau eraill wedi amcangyfrif bod tua 25 diwrnod o adnodd swyddogion WGES ynghyd â thua 13 diwrnod o adnodd y Bwrdd Uchelgais yn debygol o fod yn ofynnol i ddatblygu drafft cychwynnol o'r cynllun gweithredu dros gyfnod sydd i'w gytuno. Ni ddisgwylir i fewnbwn gan staff y Bwrdd Uchelgais i'r cynllun gweithredu effeithio ar gyflawni Rhaglen y Cynllun Dwf.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim effaith ar gydraddoldeb i'w nodi.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWD

9.1. Mae'r Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel, Grŵp Gweithredol ac Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol wedi cefnogi y strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Mae ystod o grwpiau o ran ddeiliaid ac sefydliadau wedi ymgysylltu yn ystod datblygiad y strategaeth.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Ffeithlun Strategaeth Ynni Gogledd Cymru
Atodiad 2	Strategaeth Ynni Rhanbarthol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae'r Strategaeth yma yn ddogfen sydd yn cefnogi y Weledigaeth a'r Cytundeb Twf ac yn hwyluso eu cyflawni. Mae'n ddogfen gall y Bwrdd Uchelgais Economaidd ei chymeradwyo.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Rwy'n croesawu'r Strategaeth Ynni drafft cyflwynir yma ar ran Gogledd Cymru. Nid oes cais am gyllid newydd nac unrhyw ymrwymiad ychwanegol. Felly, disgwylir i BUEGC weithredu'r Strategaeth o fewn eu hadnoddau cyfredol.”

North Wales Energy Strategy

Our vision for 2035

"Delivering maximum local economic, social, ecological and wellbeing benefits from transitioning to a net zero economy and becoming a net exporter of low carbon electricity through cross-border and regional cooperation"

Our priorities

To harness the abundance of local low carbon resources to become a green powerhouse and diversify the energy mix



To become a world-leader in offshore wind and marine technologies

To improve the energy efficiency of the region's housing and accelerate the decarbonisation of North Wales' building stock

To achieve a shift to lower carbon transport

Our baseline energy assessment

- We consume **23%** of total energy consumed in Wales
- We host **37%** of Wales' renewable energy capacity
- 0.7%** of our homes use a biomass boiler or heat pump
- We have **1,183 MW** of renewable energy installed in the region, of which **8%** is locally owned
- Our total energy consumption fell by **5%** between 2005 and 2017 and the greenhouse gas emissions from our energy system fell by **28%**
- Commercial and industrial electricity consumption constitutes **71%** of all electricity consumption in the region
- Transport is dominated by private car use with **0.1%** of cars pure electric
- 36%** of our homes are EPC band E, F or G
- Our sectoral energy demand split:



Achieving our energy vision


To be on track for net zero by 2050, we need to reduce emissions from our energy system by **55%** by 2035. Energy modelling achieves this reduction split by sector as follows:



Our energy vision is also supportive of the ambitions of the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015.



Estimated economic impacts of achieving our energy vision:



£15 billion spend required to achieve our energy vision

Not all of the jobs will be held by North Wales residents; some jobs will be held by persons outside of the region

The additional jobs associated with this vision will require strengthening and building new skills within the region

* all figures shown are approximate values

Strategaeth Ynni Gogledd Cymru



Ariennir gan:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gyda Chymorth gan:

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru



Paratowyd gan:

Gwasanaeth Ynni
Energy Service

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
Acronymau a byrfoddau	11
Cyflwyniad a Chefndir	13
Trosolwg o'r strategaeth ynni rhanbarthol	13
Effaith pandemig Covid-19	15
Ein Gweledigaeth Ynni	19
Yr egwyddorion sy'n sail i'r weledigaeth	19
Ein blaenoriaethau	20
Y system Ynni, defnydd o ynni ac allyriadau	26
Modelu senario Gweledigaeth Ynni	26
Canlyniadau gwaelodlin a modelu: Fesul sector	29
Ein defnydd o ynni	29
Ein defnydd o ynni domestig	32
Ein defnydd o ynni masnachol a diwydiannol	40
Ein cludiant	43
Canlyniadau gwaelodlin a modelu: Trydan	46
Ein galw blynyddol am drydan	46
Ein cynhyrchu trydan	48
Cynnydd yn y dyfodol	58
Maint yr her a nodwyd drwy'r senario Gweledigaeth Ynni	59
Heriau ac arloesedd ar ôl 2035	59
Asesiad economaidd	62
Cyflwyniad	62
Dull	62
Cynhyrchu trydan	65
Effeithlonrwydd ynni domestig	69
Gwres domestig	71
Crynodeb	74
Y Camau Nesaf	76

Crynodeb Gweithredol

Crynodeb Gweithredol

Croesawodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ynni ranbarthol. O'r herwydd, drafftiodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru y strategaeth hon gyda chymorth a mewnbwn gan y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ranbarthol.

Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw datblygu llwybr strategol sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni a sicrhau bod y rhanbarth yn elwa o'r cyfnod pontio. Mae senario Gweledigaeth Ynni wedi'i fodelu i nodi llwybr datgarboneiddio posibl a fydd yn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i gyflawni system ynni sero net erbyn 2050.

Ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru yw:

Sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol, ecolegol a lles lleol mwyaf posibl o drosglwyddo i economi sero net a dod yn allforiwr net o drydan carbon isel drwy gydweithredu trawsffiniol a rhanbarthol.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon yw:

1. Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni
2. Dod yn arweinydd byd-eang mewn technolegau gwynt ar y môr a morol
3. Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru
4. Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is



Mae'r asesiad ynni sylfaenol yn nodi'r defnydd a'r cynhyrchiad presennol o ynni yn y rhanbarth:

- Ar hyn o bryd mae Gogledd Cymru yn defnyddio ychydig o dan chwarter yr holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru, ychydig yn uwch na'i chyfran o 22% o'r boblogaeth;
- Rhwng 2005 a 2017, gostyngodd cyfanswm y defnydd o ynni o ~5%, mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig wedi gostwng ~28% rhwng 2005 a 2017;
Mae'r ffigurau swyddi a gyflwynir yn nhabl 6 yn cynnwys y swyddi sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn capasiti ac allbwn o rai technolegau cynhyrchu (er enghraifft gwynt ar y môr) yn ogystal â'r ffaith y bydd rhai swyddi'n cael eu colli wrth i gapasiti ac allbwn technolegau cynhyrchu tanwydd ffosil ddisgyn.



Ffigur 36. Swyddi Gros ESV gan gynnwys colli swyddi

Amcangyfrifir bod cynhyrchu trydan yn senario gweledigaeth y system ynni yn gyfrifol am 64,407 swyddi gros uniongyrchol rhwng 2020 a 2035.

Mae Ffigur 37 yn edrych ar ba dechnolegau yn y senario gweledigaeth ynni sy'n cefnogi swyddi ychwanegol o'u cymharu â'r senario busnes fel arfer. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy senario (a elwir yn swyddi net) yn cynrychioli'r swyddi ychwanegol net a gefnogir gan weledigaeth y system ynni o'i gymharu â'r busnes fel arfer. Ar y tir mae'r gwahaniaeth mwyaf hwnnw mewn swyddi rhwng y ddwy senario, ac yna solar PV a niwclear.



Ffigur 37: Dosbarthiad Swyddi Ychwanegol yn y senario ESV o'i gymharu â senario BAU

Effeithlonrwydd ynni domestig

Fel gyda chynhyrchu trydan, mae'r cynnydd mewn effeithlonrwydd ynni domestig sy'n gysylltiedig â senario Gweledigaeth y System Ynni o'i gymharu â senario BAU yn gofyn am fwy o fuddsoddiad, yn cefnogi mwy o swyddi, ac yn arwain at gyfraniad gwell i GVA. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gweledigaeth y system ynni yn gweld newid mwy dramatig yn nifer y cartrefi sy'n cyflawni sgoriau EPC uwch a'r nifer fwy o welliannau effeithlonrwydd ynni sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniad hwn. Cyflwynir y ffigurau hyn yn Nhabl 8.

Dengys Tabl 8 fod gweledigaeth y system ynni yn gofyn am tua 1.45 gwaith y buddsoddiad a'r swyddi o'i gymharu â'r senario busnes fel arfer. Yn ogystal, mae'n cefnogi tua 1.45 gwaith y GVA sy'n gysylltiedig â'r senario busnes fel arfer.

Tabl 8. Effeithlonrwydd Ynni Domestig effaith economaidd ychwanegol y senario ESV o'i gymharu â'r senario BAU rhwng 2020 a 2035³²

Senario	Swyddi net	GVA gostyngol	Buddsoddiad Gostyngol
Busnes fel arfer (BAU)	14,800	£880b	£3.1b
Gweledigaeth y system ynni (ESV)	21,500	£1.3b	£4.5b
Gwahaniaeth rhwng ESV a BAU	6,600	£397m	£1.4b
Gwahaniaeth rhwng ESV a BAU (canran)	45%	45%	45%


* Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu.

** Nid yw ffigurau swyddi net yn cynnwys amcangyfrifon o swyddi gweithredu a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

Buddsoddiad

Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad sydd ei angen i osod y mesurau effeithlonrwydd ynni a ddisgrifir gan senarios BAU ac ESV yn gysylltiedig â mesurau inswleiddio. Mae'r gofynion buddsoddi i'w gweld yn ffigur 38.

³² Cymhwyswyd cyfradd ddisgownt o 3.5% i gyfrifo'r GVA a'r Buddsoddiad dros gyfnod 2020 - 2035.




Ffigur 278. BAU ac effeithlonrwydd ynni Gofynion buddsoddi 2020-2035

Swyddi

Mae tua 6,700 o swyddi net ychwanegol yn gysylltiedig â senario gweledigaeth y system ynni o'i gymharu â'r senario busnes fel arfer rhwng 2020 a 2035. Swyddi uniongyrchol net yw'r rhain ac maent yn ystyried y ffaith bod effeithlonrwydd ynni yn gofyn am swyddi ychwanegol i gyflawni a gosod y technolegau perthnasol, ond y gallent hefyd leihau swyddi sy'n gysylltiedig â'r angen llai am gynhyrchu a chyflenwi ynni. Fel cynhyrchu trydan, gall rhai swyddi effeithlonrwydd ynni gael eu dal gan y rhai sy'n byw yn y rhanbarth a gall pobl sy'n teithio i'r rhanbarth ddal swyddi eraill i gyflawni'r swyddi hyn.

Mae'r mwyafrif (51%) o'r swyddi ychwanegol yn y senario ESV sy'n ymwneud â gosod inswleiddio waliau mewnol neu allanol 50 mm, mae 17% o swyddi sy'n ymwneud ag inswleiddio llawr a 6% o swyddi'n ymwneud â disodli ffenestri gwydr sengl â ffenestri gwydr isel gyda ffenestri dwbl E isel. Mae Ffigur 39 isod yn dangos yr amcangyfrif o'r swyddi sydd eu hangen i weithredu'r mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n ymwneud â'r newid EPC yn y senarios BAU ac ESV.



Ffigur 39. Swyddi BAU ac ESV net fesul mesur effeithlonrwydd ynni 2020 – 2035.28

Gwres domestig

Mae'r newid mwy dwys i wresogi carbon isel yn senario gweledigaeth y system ynni yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol, sy'n cynyddu'r GVA sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Mae'r GVA sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwresogi 298% yn fwy na'r BAU tra bod senario gweledigaeth y system ynni yn gofyn am bron i dair gwaith lefel y buddsoddiad o'i gymharu â'r senario busnes fel arfer. Mae'r senario ESV hefyd yn gofyn am fwy o swyddi sy'n gysylltiedig â gwresogi carbon isel. Fodd bynnag, mae diffyg data ar swyddi sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwresogi traddodiadol yn golygu nad yw cymhariaeth gynhwysfawr yn yr effeithiau swyddi o'r newid i dechnolegau gwresogi carbon isel yn bosibl. Mae Tabl 9 isod yn crynhoi effaith economaidd y ddau senario ac mae hefyd yn dangos y gwahaniaeth rhwng y senarios. Cyflwynir cymhariaeth o'r buddsoddiad sy'n ofynnol yn senario BAU a'r senario ESV yn ffigur 40.

Tabl 9. Effaith economaidd BAU ac ESV yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng effaith economaidd ESV a BAU 2020-203533

Senario	Swyddi gros sy'n gysylltiedig â gwresogi carbon isel*	GVA gostyngol sy'n gysylltiedig â'r holl dechnolegau gwresogi	Buddsoddiad Gostyngol sy'n gysylltiedig â'r holl dechnolegau gwresogi
Busnes fel arfer (BAU)	650	£65m	£161m
Gweledigaeth y system ynni (ESV)	1,800	£257m	£463m
Gwahaniaeth rhwng ESV a BAU	1,216	£192m	£301m
Gwahaniaeth rhwng ESV a BAU (canran)	+188%	+298%	+187%


*Ar gyfer gwres domestig mae'n anodd cysylltu swyddi â'r economi lleol. Y rheswm am hyn yw bod y swyddi a gyfrifir yn gysylltiedig â gweithgynhyrchu technolegau a chynhyrchion gwresogi yn ogystal â'u gosod. Mae cyfran o'r swyddi hyn yn debygol o gael ei lleoli yng Ngogledd Cymru; fodd bynnag, bydd swyddi eraill yn cael eu dal gan bobl sy'n byw y tu allan i'r rhanbarth.

Buddsoddiad

Mae Ffigur 40 yn adlewyrchu'r ffaith bod y newid i wres carbon isel yn y senario ESV yn digwydd yn gyflymach ac ar y raddfa fwyaf na'r senario BAU. Er enghraifft, rhwng 2020 a 2025, mae'r ESV yn gweld llai o fuddsoddiad mewn bwyleri nwy sy'n adlewyrchu symudiad cyflymach oddi wrth y dechnoleg hon. Y duedd fwyaf cyffredin ar draws y flwyddyn yw bod angen swm sylweddol o fuddsoddiad ychwanegol mewn pypiau gwres ffynhonnell aer. Mae buddsoddiad yn cynyddu'n arbennig o 2028 mewn perthynas â phypiau gwres ffynhonnell aer. Yn ogystal, mae senarios BAU ac ESV yn adlewyrchu gwahanol lwybrau gosod pwmp gwres o'r ddaear. Mae gan y senario ESV lai o fuddsoddiad pwmp gwres o'r ddaear o 2026 ymlaen.

³³ Cymhwysir cyfradd o 3.5% i GVA a buddsoddiad i gyfrifo'r ffigurau hyn dros gyfnod 2020-2035.

Domestic Low Carbon heating investment ESV vs. BAU 2020-2035




Ffigur 40. ESV vs. Buddsoddiad gwres gostyngol BAU 2020 – 2035. Disgownt ar gyfradd o 3.5%.

Swyddi

Mae'r ffigurau swyddi a gyfrifir ar gyfer gwres domestig yn wahanol i'r rhai a gyfrifir ar gyfer cynhyrchu trydan. Roedd llai o astudiaethau'n mesur y swyddi sy'n gysylltiedig â gosod technolegau gwresogi nag ar gyfer technolegau cynhyrchu trydan. O ystyried prinder astudiaethau, rydym yn defnyddio trosiant swyddi/£m ar gyfer technolegau rhwydwaith nad ydynt yn rhai gwres, fel pypiau gwres a bwyleri biomas ond mae'n rhaid i ni ddibynnu ar swyddi parhaol/GWh blynyddol o wres a gynhyrchir ar gyfer rhwydweithiau gwres.

At hynny, oherwydd diffyg data o ansawdd uchel sydd ar gael, mae ein hamcangyfrif o swyddi sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwresogi ond yn ymwneud â gwresogi carbon isel ac nid yw'n cynnwys newidiadau mewn swyddi sy'n gysylltiedig â gosod technolegau gwresogi mwy traddodiadol fel bwyleri nwy.

Mae Ffigur 41 isod yn dangos y gwahaniaeth mewn swyddi gwresogi carbon isel rhwng y senario ESV a'r senario BAU. Fel gyda chynhyrchu trydan ac effeithlonrwydd ynni, gall rhai o'r swyddi a gyflwynir gael eu dal gan drigolion Gogledd Cymru tra gall swyddi eraill gael eu dal gan y rhai sy'n byw y tu allan i'r rhanbarth.



Ffigur 41. Swyddi gwresogi Carbon Isel Domestig ESV vs. BAU 2020-2035

Crynodeb

Ar draws pob technoleg, mae'r lefel uwch o ymdrech sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio a'r newid ynni yn senario gweledigaeth y system ynni yn gofyn am fwy o fuddsoddiad o'i gymharu â'r senario busnes fel arfer. Mae'r dadansoddiad economaidd yn dangos bod angen £10.9 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol i gyflawni'r dyheadau effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu trydan a gwres a ddisgrifir yn y weledigaeth ynni rhwng nawr a 2035. Mae hyn yn cynrychioli tua £732 miliwn y flwyddyn a bydd angen ei ariannu o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y sector preifat, aelwydydd, a llywodraeth genedlaethol a lleol.

O ran swyddi, amcangyfrifir bod y senario ESV yn gofyn am 24,400 o swyddi net ychwanegol i ddarparu'r defnydd carlam o dechnolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a'r lefelau uwch o effeithlonrwydd ynni. Mae'r swyddi ychwanegol hyn yn gysylltiedig â thua £2.4b yn fwy o GVA (gostyngiad o 3.5% dros y cyfnod 2020-2035). Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd 1,216 yn fwy o swyddi gros yn gysylltiedig â darparu technolegau gwresogi carbon isel yn y senario ESV na senario BAU, sy'n gysylltiedig £192m o GVA.

Y Camau Nesaf

Y Camau Nesaf

Mae Strategaeth Ynni Gogledd Cymru wedi cymryd sawl cam cyntaf pwysig tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi datblygu gweledigaeth gydweithredol ar gyfer system ynni'r dyfodol yng Ngogledd Cymru ac wedi diffinio meysydd blaenoriaeth allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r weledigaeth honno. Mae asesu allyriadau presennol y sector ynni wedi galluogi dealltwriaeth ddyfnach o'r cynnydd a wnaed o ran datgarboneiddio hyd yma yn ogystal â'r bwlch rhwng ein gweithgareddau presennol a system ynni sero net.

Gan adeiladu ar hyn, mae'r modelu ynni yn dangos llwybr posibl hyd at 2035 sy'n gyson â'r nod hirdymor o gyflawni sero net erbyn 2050. Mae hyn wedi'i wneud ynghyd ag asesiad o'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â thrawsnewid ein system ynni yn unol â'r llwybr hwn. Bydd hyn yn hanfodol i gyfleu manteision gweithredu a dangos y potensial ar gyfer manteision economaidd lleol llawer mwy nag y gellid eu cyflawni drwy ddychwelyd i fusnes fel arfer, yn enwedig yng nghyd-destun adferiad economaidd gwyrdd o bandemig COVID-19.

Mae tri cham nesaf hanfodol i'r rhanbarth eu cymryd, gyda chefnogaeth WGES, er mwyn trosglwyddo o strategaeth i weithredu byd go iawn wrth gyflawni gweledigaeth system ynni Gogledd Cymru:

- 1) **Diffinio llywodraethu'r strategaeth.** Bydd Gogledd Cymru yn sefydlu strwythur llywodraethu cadarn a ffurfiol ar gyfer y Strategaeth Ynni gyda chymorth WGES. Bydd hyn yn cynnwys diffinio strwythur o lywodraethu traws-sectoraidd, pwerau, rolau a chyfrifoldebau ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r strategaeth, a monitro a gwerthuso ei chynnydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cydlynu a datgloi camau gweithredu, a sicrhau momentwm wrth symud ymlaen.
- 2) **Cyfathrebu a chymdeithasu'r strategaeth.** Bydd y rhanbarth gyda chymorth WGES yn ymgymryd â chyfres o weithgareddau ymgysylltu i gyfathrebu, cymdeithasu ac adeiladu cefnogaeth i'r strategaeth derfynol ymhlith rhanddeiliaid gwleidyddol, corfforaethol a chymunedol allweddol ledled Gogledd Cymru. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i gysoni grŵp rhanddeiliaid amrywiol â gweledigaeth ynni Gogledd Cymru ac yn codi ymwybyddiaeth o fewnwelediadau sy'n deillio o'r dadansoddiad a'r ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
- 3) **Sefydlu cynllun gweithredu.** Byddwn yn creu cynllun cyflawni ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn y gwaith modelu ynni, ac ar gyfer diffinio'r prosesau a'r camau y gellid eu datblygu i wireddu gweledigaeth y system ynni. Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun cyflawni yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd, ac y gallai cynllunio ynni ardal leol yn y dyfodol neu ddatblygiadau ac ymchwil perthnasol eraill ddylanwadu arnynt.

Mae'r modelu ynni a gyflwynwyd wedi dangos bod angen cymryd camau sylweddol i Ogledd Cymru fod ar y trywydd iawn ar gyfer dyfodol sero net a bod gennym yr offer a'r technolegau i wneud cynnydd yn awr. Mae'r asesiad economaidd yn cadarnhau

bod yr her yn fawr ac y bydd angen buddsoddiad gan aelwydydd, busnesau, buddsoddwyr a'r sector cyhoeddus. Mae'r her hon yn cyd-fynd â gweledigaeth sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd a ddangoswyd gan randdeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r strategaeth hon.

DRAFT

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**26 MAWRTH, 2021**

TEITL: *Egwyddorion Masnachol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru***AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Cyflwyno cyfres o Egwyddorion Masnachol a fyddai, os cânt eu mabwysiadu, yn cael eu defnyddio gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i negodi cyfleoedd masnachol sy'n ymwneud â phrosiectau'r Cynllun Twf.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cytuno ar yr Egwyddorion Masnachol fel y nodir yn adran 5 yr adroddiad.
- 2.2. Nodi y bydd y sail resymegol ar gyfer mabwysiadu safbwynt masnachol penodol wedi'i nodi'n glir law yn llaw ag achosion busnes y prosiectau er mwyn i'r Bwrdd eu hystyried.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Darparu llwyfan negodi clir ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio.

4. CEFNDIR AC YMRWYMIADAU PRESENNOL

- 4.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith Cynllun Twf Gogledd Cymru ar y rhanbarth. Cadarnhawyd y sefyllfa hon yn Achos Busnes y Portffolio.
- 4.2. Y prif lywiwr ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yw cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol i'r Gogledd yn unol â'r deilliannau strategol a nodir yn achos busnes y portffolio - creu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net, cynhyrchu £2-2.5bn mewn GVA ychwanegol net a denu cyfanswm o £1.1bn o fuddsoddiad i economi'r Gogledd erbyn 2036.
- 4.3. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio gwneud y mwyaf o fuddsoddiad uniongyrchol y sector preifat mewn prosiectau a gwneud y mwyaf o lifer ehangach y sector preifat a hwylusir drwy'r portffolio.
- 4.4. Mae cydnabyddiaeth am y gwahaniaeth rhwng yr arianwyr prosiectau nid-er-elw hynny y mae eu hamcanion yn unol ag egwyddorion y Bwrdd Uchelgais a'r rheini sy'n gweithredu'n fasnachol ac adlewyrchir hyn wrth ddefnyddio'r egwyddorion hyn.
- 4.5. Caiff unrhyw adenillion ar y buddsoddiad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a gynhyrchir drwy'r Cynllun Twf eu buddsoddi o fewn y portffolio.

5. EGWYDDORION MASNACHOL

- 5.1. Cynigir yr egwyddorion masnachol a ganlyn:

- **Egwyddor Fasnachol 1 – Cynaliadwyedd ac Ail-fuddsoddi**
Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn ceisio sicrhau adenillion ar fuddsoddiad o brosiectau sy'n cynhyrchu adenillion masnachol uniongyrchol i arianwyr prosiectau er mwyn hwyluso ailgylchu ac ail-fuddsoddi cyllid yn y rhanbarth.
- **Egwyddor Fasnachol 2 – Rheoli Cymorthdaliadau (Cymorth Gwladwriaethol)**
Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn comisiynu cyngor rheoli cymorthdaliadau (cymorth gwladwriaethol) ar yr holl brosiectau ar y cam Achos Busnes Amlinellol a gall olygu y bydd modelau ariannu penodol yn cael eu defnyddio ar gyfer prosiectau lle nad oes eithriadau'n berthnasol e.e. cyfradd benthyriad masnachol.
- **Egwyddor Fasnachol 3 – Ail fuddsoddi gwarged neu elw ariannol a gynhyrchir gan arianwyr prosiectau nid-er-elw**
Rhoddir ystyriaeth yn ystod trafodaethau i beidio â chanlyn adenillion neu ystyried adenillion masnachol is gan arianwyr prosiectau nid-er-elw, lle gellir dangos y bydd unrhyw warged neu elw ariannol uniongyrchol drwy'r brosiectau yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gogledd mewn meysydd sy'n cyd-fynd â chyflawni'r Weledigaeth Twf, yn benodol twf economaidd a datblygu sgiliau. Mae'n bosib y bydd angen trefniadau penodol i'w rhoi yn eu lle rhwng y Bwrdd Uchelgais ac arianwyr y prosiectau i ddiogelu'r buddsoddiad hwn.
- **Egwyddor Fasnachol 4 – Ystyrir cyllid llenwi bwllch os oes materion hyfywedd neu fethiant y farchnad**
Rhoddir ystyriaeth yn ystod trafodaethau i beidio â chanlyn adenillion masnachol lle gall ariannwr neu ddatblygwyr y prosiect ddangos bod materion hyfywedd neu fethiant y farchnad gyda'r prosiect ac na fyddai'r prosiect yn bwrw ymlaen heb gyllid llenwi bwllch. Mewn enghreifftiau o'r fath, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cyd-bwysu'r risg na fydd y prosiect yn bwrw ymlaen yn erbyn unrhyw adenillion posib ar y buddsoddiad neu amseriad neu feini prawf yr adenillion hynny.
- **Egwyddor Fasnachol 5 – Bydd trefniadau cytundebol yn diogelu buddiannau hirdymor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
Bydd trefniadau cytundebol yn diogelu buddiannau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i bartneriaid rhag unrhyw newidiadau mewn perchnogaeth neu fodolau gweithredu yn y dyfodol a allai leihau'r buddion i'r Gogledd.

6. CYMHWYSO'R EGWYDDORION I'R PROSIECTAU

- 6.1. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn arwain ar y trafodaethau gydag arianwyr y prosiectau, gyda chefnogaeth gan y Swyddog Monitro a chefnogaeth gyfreithiol allanol i gyflawni'r cytundeb gorau i'r Gogledd. Caiff yr egwyddorion hyn eu cymhwyso'n gymesur fesul achos ar gyfer pob prosiect.
- 6.2. Bydd y sail resymegol dros ganlyn model masnachol penodol wedi'i nodi'n glir mewn adroddiad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru law yn llaw ag achos busnes y prosiectau a chânt eu herio gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol a'r Bwrdd Portffolio cyn cael eu hargymell i'r Bwrdd Uchelgais er ystyriaeth.
- 6.3. Ym mhob achos, bydd y gallu i greu modelau cytundebol effeithiol i gyflawni a chynnal y deilliannau yn ystyriaeth allweddol i'r dull gweithredu a gymerir.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol o fabwysiadu'r egwyddorion.
- 7.2. Bydd mabwysiadu'r Egwyddorion Masnachol yn darparu llwyfan negodi clir i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i geisio gwneud y mwyaf o'r adenillion i'r Gogledd o achos busnes pob prosiect.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Bydd darparu cefnogaeth i Brosiectau drwy fecanwaith y Cynllun Twf yn cynnwys cwblhau cytundeb cyfreithiol ffurfiol gyda'r Ariannwr Prosiect perthnasol. Bydd y cytundeb hwnnw yn ymgorffori telerau ac amodau'r cyllid hwnnw a, lle bo hynny'n briodol, gall gael ei gefnogi gan sicrwydd ar gyfer unrhyw ymrwymadau. Mae'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn rhoi sail ar gyfer cytuno ar yr amodau ariannu ar gyfer y buddsoddiad hwn o gyllid cyhoeddus ac yn caniatáu am elfen o ailgylchu ac ail-fuddsoddi lle bod y Prosiectau a gefnogir yn cynhyrchu elw ariannol o gyllid cyhoeddus. Lle mae'r trefniant hwnnw'n caniatáu e.e. am ail-fuddsoddiad gan Ariannwr Prosiect y cytunwyd iddo, bydd angen adlewyrchu hyn yn y cytundeb ariannu hefyd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ymrwymadau eu diffinio a'u cyflawni.
- 8.2. Mae darparu Cyllid y Cynllun Twf hefyd yn amodol ar y gyfraith mewn perthynas â Chymorth Gwladwriaethol neu gyfraith rheoli cymorthdaliadau. Er bod y maes cyfreithiol hwn yn datblygu ar hyn o bryd yn dilyn diwedd ffurfiol y Cyfnod Pontio mewn perthynas ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n ystyriaeth allweddol ar gyfer penderfyniadau a chytundebau ariannu. Er bod ystod o eithriadau wedi'u hadnabod, lle na ellir dibynnu ar y rheini mae'n debygol o olygu y byddai'n rhaid i'r modelau i ddarparu cefnogaeth gael eu darparu ar delerau masnachol. Mae'r asesiad hwnnw yn parhau'n gydran allweddol o'r broses Achos Busnes.

9. GOBLYGIADAU STAFFIO

- 9.1. Dim.

10. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- 10.1. Dim.

11. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

- 11.1. Trafodwyd yr Egwyddorion Masnachol yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ac fe'u cadarnhawyd ar 12 Mawrth, 2021.


YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Rwyf wedi cael cyfle i gyngori ar yr adroddiad yma. Fel y nodi'r egwyddorion ac amcanion ydi y rhain. Bydd y gwaith manwl a'r allbynnau yn deillio o'r broses Achos Busnes a'r amodau ariannu.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Mae'r egwyddorion masnachol a gyflwynir yma'n ymddangos yn rhesymol, ond bydd natur y “dychweliad masnachol” (cyfeirir ato yn “Egwyddor Masnachol 1”) yn mynd i ddibynnu ar y prosiect, a bydd angen ei negodi a'i gytuno gyda'r noddwyr prosiect masnachol unigol cyn ei ffurfioli o fewn y cytundebau ariannu perthnasol.”



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
26 MAWRTH, 2021

TEITL: *Cynllun Twf Gogledd Cymru - Egwyddorion Caffael*

AWDUR: *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno cyfres o egwyddorion caffael ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r egwyddorion caffael arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2.2. Nodi y bydd gofyn i arianwyr y prosiectau ddangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn fel rhan o achos busnes y prosiectau.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Darparu fframwaith clir i brosiectau gyflawni yn erbyn dyheadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cadarnhawyd cyfres gychwynnol o egwyddorion caffael drafft gan y Bwrdd fel rhan o'r Achos Busnes Portffolio ym mis Hydref 2020 gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth caffael lawn ar gyfer y Cynllun Twf.

4.2. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi adolygu ei ddull gweithredu gyda chefnogaeth ymgynghorydd caffael ac mae'n cynnig dull gweithredu amgen i gyflawni ein dyheadau yn y maes hwn.

4.3. Caiff yr holl brosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru eu cyflawni gan arianwyr prosiectau sydd â'u polisiau a'u gweithdrefnau caffael sefydledig eu hunain. Gellir cyflawni'r prosiectau rhanbarthol sydd i'w cyflawni gan y Swyddfa Rheoli Portffolio drwy bolisiau a gweithdrefnau caffael Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya.

4.4. Felly, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynnig bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r egwyddorion caffael diwygiedig sydd wedi'u nodi yn **Atodiad 1**. Mae'r egwyddorion hyn yn cynrychioli esblygiad o'r rhai a fabwysiadwyd yn flaenorol gan y Bwrdd fel rhan o'r Achos Busnes Portffolio ac maent yn seiliedig ar egwyddorion caffael sector cyhoeddus cydnabyddedig ac yn cyd-fynd yn glir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.5. Mae'r themâu a'r egwyddorion diwygiedig wedi'u nodi isod (gweler Atodiad 1 am fanylion pellach):

▪ **Arweinyddiaeth Ranbarthol ac ymagwedd strategol**

- Strategol
- Hyrwyddo
- Cywirdeb

▪ **Ychwanegu Gwerth**

- Gwerth Cymdeithasol
- Sgiliau, Swyddi a Chyfleoedd
- Arloesol
- Cydweithredol

▪ **Cynaliadwy**

- Cefnogi'r Gadwyn Gyflenwi Leol
- Newid Hinsawdd ac Ecolegol
- Moesegol
- Effeithlon ac Effeithiol

▪ **Teg, Cyfreithiol a Chydsyniol**

- Cydsyniol
- Heb Wrthdaro
- Tryloyw

4.6. Mae'r egwyddorion uchod yn rhoi ffocws clir ar gynaliadwyedd, gan sicrhau gwerth ychwanegol drwy gaffael a chydymffurfio ac arfer gorau.

4.7. Er nad yw sicrhau'r gwerth gorau a'r gwerth am arian wedi'u nodi'n benodol yn yr egwyddorion uchod, dylid nodi'r amcanion caffael cyhoeddus cydnabyddedig hyn a byddant yn ystyriaeth allweddol i bob prosiect a noddwyr eu prosiectau. Yn arbennig o ystyried y bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu hariannu o gyllidebau sefydlog. Felly, mae'r ffocws yma drwy'r egwyddorion hyn ar feysydd eraill nad ydynt efallai wedi'u cynrychioli mor gryf mewn polisiau partneriaid a gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes.

4.8. Unwaith y cânt eu mabwysiadu, byddai'r egwyddorion yn cael eu cyfathrebu i holl arianwyr y prosiectau a bydd gofyn iddynt ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn fel rhan o achosion busnes y prosiectau.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Dim goblygiadau cyfreithiol uniongyrchol. Mae'r egwyddorion caffael yn rhoi ffocws cryf ar gydymffurfio. Bydd gofyn i Arianwyr y Prosiectau ddangos bod eu llwybr caffael arfaethedig ar gyfer y prosiectau, yn cynnwys eu polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain, yn cydymffurfio â'r holl reoliadau caffael perthnasol.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Mae'r egwyddorion caffael yn cynnwys ffocws cryf ar ychwanegu gwerth drwy gaffael, yn benodol drwy gyflawni gwerth cymdeithasol a chreu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a'r rheini mewn ardaloedd difreintiedig. O ganlyniad, ystyrir y byddai'r egwyddorion yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

- 8.2. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae egwyddorion y Ddeddf wedi bod yn ystyriaeth greiddiol wrth baratoi yr Egwyddorion Caffael. Bydd eu gweithredu yn sicrhau fod yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy fel y darperir ar ei gyfer yn y Ddeddf yn cael ei adlewyrchu yn y prosesau ac allbynnau caffael.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIYD

- 9.1. Trafodwyd a chytunwyd ar yr egwyddorion caffael yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ar 12 Mawrth, 2021.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Egwyddorion Caffael Arfaethedig

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Mae sefydlu egwyddorion ar gyfer yr hyn a ddisgwylir mewn prosesau caffael yng nghyddestun y Cynllun Twf yn gam cadarnhaol. Mae'r egwyddorion yn cyfrannu at greu y fframwaith asesu sydd yn arwain at adnabod y tendr mwyaf economaidd manteisiol ar gyfer cytundeb benodol. Maent yn gyfrwng i gefnogi trosglwyddo egwyddorion ac amcanion y Bwrdd Uchelgais yn effeithiol i'r disgwyliadau ar Noddwyr Prosiect.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Tra gall fod ymhlygiadau ariannol ymylol o weithredu'r egwyddorion caffael arfaethedig ar draws holl brosiectau'r Bargaen Twf, rhaid cyflawni'r prosiectau hynny o fewn eu hadnoddau cyfyngedig. Mae paragraff 4.7 o'r adroddiad yn nodi'r cyd-destun anochel fod rhaid sicrhau 'gwerth gorau' a 'gwerth am arian' ochr yn ochr â'r egwyddorion dyheadol eraill a nodir ym mharagraff 4.5 ac Atodiad 1. Efallai bydd yr aelodau awydd nodi'r angen hanfodol i sicrhau gwerth am arian wrth fabwysiadu'r egwyddorion caffael arfaethedig.”



CYNLLUN TWF
GOGLEDD CYMRU
EGWYDDORION CAFFAEL



amaeth a thwristiaeth. Bydd y Cynllun Twf (yn ddarostyngedig i'r Cytundeb Terfynol) yn gweld buddsoddiad o £240miliwn yn economi Gogledd Cymru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a fydd, wrth ei gyfuno gyda chyfraniadau sector preifat a sector cyhoeddus, yn gweld rhaglen fuddsoddi o tua £1biliwn yn cael ei chyflawni dros y cyfnod o 15 mlynedd (2021-2036).

Mae egwyddorion y themâu caffael sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon yn nodi dyheadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod caffael cynaliadwy wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru ac yn hwylusydd i gyflawni ein dyheadau i'r rhanbarth. Mae caffael yn declyn i ni i uchafu effaith prosiectau'r Cynllun Twf ar gyfer pob cymuned ledled y rhanbarth. Ffocws allweddol yw cefnogi'r rhanbarth i adfer o bandemig COVID 19, gan ddefnyddio lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddylunio'n dulliau caffael a'n ffordd o weithio.

Rydym yn ymrwymedig i fod yn arloesol yn ein dulliau i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol gan weithio gyda phartneriaid i gefnogi ac adeiladu gwytnwch cymunedol. Ffocws allweddol y strategaeth gaffael hon yw sicrhau ein bod yn cefnogi llesiant rhanbarthol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gan weithio ar draws sectorau a chyda chontractwyr a chymunedau i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn y ffordd orau.

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u datblygu i gydnabod bod nifer o arianwyr prosiectau yn datblygu achosion busnes ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ac mai'r ariannwr prosiect perthnasol fydd yn arwain ar weithgarwch caffael yn unol â'u polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain a'r holl reoliadau caffael perthnasol.

Er mwyn sicrhau bod dyheadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'u gwreiddio o fewn holl weithgarwch caffael y Cynllun Twf, bydd gofyn i arianwyr prosiectau ddangos sut maen nhw'n cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn fel rhan o'r broses o gymeradwyo achosion busnes.

2. Gyrwyr Polisi

Er bod nifer sylweddol o yrwyr polisi sydd wedi siapio'r gwaith o ddatblygu'r egwyddorion hyn, hoffem amlygu'r isod:



Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gydran allweddol o ran cyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru. Y Weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwery'r Gogledd ac Iwerddon." Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol:

- **Gogledd Cymru Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gogledd Cymru Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Gogledd Cymru Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafndiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn rhoi dyletswydd ar Gyrrff Cyhoeddus i weithio mewn ffyrdd newydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ledled Cymru.

Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo pum ffordd o weithio - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys, tuag at saith nod llesiant. Bydd y ffyrdd o weithio a'r saith nod llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob prosiect Cynllun Twf a'r gweithgarwch caffael. Gall arferion caffael cynaliadwy gan ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith:


- Leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at newid yn yr hinsawdd (Cymru Ffyniannus a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)
- Gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod bioamrywiaeth (Cymru gydnherth)
- Adeiladu mwy o gymunedau cydlynus gyda mentrau cymdeithasol a mentrau bach a chanolig eu maint sy'n ffynnu (Cymru o gymunedau cydlynus)
- Cefnogi gwell iechyd corfforol a meddylion (Cymru Iachach)
- Darparu gwaith gweddus gydag amodau tâl teg a chyfartal (Cymru sy'n fwy cyfartal)
- Adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant ein holl gymunedau (Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus)
- Annog dinasyddiaeth foesebol a byd-eang well (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)



3. Themâu ac Egwyddorion Caffael

Bydd y themâu a'r egwyddorion caffael a ganlyn yn tanategu holl weithgarwch caffael y Cynllun Twf:

Tud. 129



Arweinyddiaeth Ranbarthol ac Ymagwedd Strategol			
Egwyddorion	Hyrwyddo a Hybu	Cyfanrwydd	Strategol
Beth yw'r egwyddor?	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyfleoedd caffael cydweithredol, gan gefnogi arloesedd a thwf Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn cyd-fynd â pholisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol, ac yn eu profi. Hyrwyddo a chynhyrchu ymwybyddiaeth gadarnhaol am y Cynllun Twf a'r holl gyfleoedd 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu rheolaeth dda, cynnal ymddygiad proffesiynol a rheolaeth a chynnal yr holl weithgareddau mewn modd agored, cyson a thryloyw. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Bwrdd Uchelgais yn amlinellu egwyddorion clir ar gyfer cyflawni arferion caffael arloesol a chynaliadwy gyda chleientiaid, contractwyr a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd
Pam fod hyn yn flaenoriaeth?	<ul style="list-style-type: none"> Darparu cefnogaeth barhaus a datblygu buddion pob menter ymhellach. Ceisio cynhwysiad ac ymrwymiad gan yr holl randdeiliaid er mwyn bwrw ymlaen. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n sicrhau hyder yn y broses a dylai ysbrydoli gonestrwydd, ymddiriedaeth, cyfrifoldeb a dibynadwyedd. Atal llygredigaeth neu gydgyllwynio gyda chyflenwyr neu eraill 	<ul style="list-style-type: none"> I sicrhau bod amcanion yn cael eu halinio drwy gydol yr amser a darparu ffyrdd cyson a chlr o weithio.
Sut fydd arianwyr prosiectau yn cyflawni yn erbyn yr egwyddor hon?	<ul style="list-style-type: none"> Drwy gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid; rhwydweithio; diwrnodau cyflenwyr a'u hysbysu'n gynnar am gyfleoedd tendro er mwyn rhoi'r budd a'r cyfle mwyaf iddynt Arianwyr Prosiectau i ymgorffori lens 'Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol' yn yr holl weithgarwch caffael gan gyfrannu, lle bo hynny'n berthnasol, i'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru. Defnyddio brand Cynllun Twf Gogledd Cymru ar yr holl brosiectau cymeradwy 	<ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn prosesau cymeradwy fel y maent wedi'u hamlinellu a sicrhau bod egwyddorion arfer gorau wedi'u gwreiddio. Darparu her os oes rhywun yn gweithredu'n groes neu'n peidio â chydymffurfio. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gofyn i Arianwyr Prosiectau ddangos sut bydd eu prosesau caffael yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn.



Ychwanegu Gwerth				
Egwyddorion	Sgiliau, Swyddi a Chyfleoedd	Arloesol	Cydweithio	Gwerth Cymdeithasol
Beth yw'r egwyddor?	<ul style="list-style-type: none"> Creu cyfleoedd recriwtio a hyfforddi a chanolbwyntio ar Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targeddu (TR&T), rhaglenni gwaith a datblygu sgiliau. 	<ul style="list-style-type: none"> Gan edrych tua'r dyfodol, archwilio ffyrdd newydd o weithio, gyda nodau'r prosiect yn flaenllaw a meddwl yn y termau ehangaf posib gan ganolbwyntio ar dwf economaidd, anghenion y gymdeithas a chan ystyried cynaliadwyedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio cyfleoedd ar gyfer cydgrynhoad, defnyddio trefniadau contractio presennol a gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod yr holl anghenion a dyheadau wedi'u gwireddu a'u cyflawni. 	<ul style="list-style-type: none"> Uchafu'r Gwerth Cymdeithasol a gyflawnir o brosiectau'r Cynllun Twf i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a llesiant rhanbarthol.
Pam fod hyn yn flaenoriaeth?	<ul style="list-style-type: none"> Er mwyn rhoi sylw i effeithiau cymdeithasol ac economaidd diweithdra neu seگردod economaidd yn benodol ar gyfer pobl dan anfantais ac i'r rheini mewn ardaloedd difreintiedig. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae arloesi yn cyfrannu'n uniongyrchol i dwf cynhyrchedd ac yn creu swyddi cynaliadwy, gwerth uchel ynghyd â ffyrdd effeithlon ac effeithiol o weithio ac adeiladu ar fframweithiau sy'n bodoli'n barod. 	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio i harneisio arbenigedd, rhannu profiadau a dyheadau fel tîm integredig i gyflawni nodau cyffredin i sicrhau bod y prosiect yn llwyddo. 	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu gwytnwch yn y gymuned a chyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd am amgylcheddol cymunedau yn y rhanbarth.
Sut fydd arianwyr prosiectau yn cyflawni yn erbyn yr egwyddor hon?	<ul style="list-style-type: none"> Targeddu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi hyn a thargeddu grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheini sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu. 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda thîm traws-swyddogaethol, yn cynnwys cadwyn gyflenwi, yn gynnar yn y broses gaffael i adnabod cyfleoedd i arloesi ac adnabod llwybrau ar gyfer y dyfodol i gynnyrch/gwasanaethau gan sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd yn cael eu gwreiddiol drwy gydol yr amser ac y dysgir o brofiad lle bo hynny'n briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu ar draws rhanddeiliaid allanol a busnes. Ceisio barn eraill i hysbysu briffiau'r prosiectau. Ymgysylltu mewn sgwrs ddwyffordd gyda phartneriaid, contractwyr a chymunedau a sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn rhan o'r cymalau gwerth cymdeithasol. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gwerth am arian yn cael ei gydbwysu gyda chost oes gyfan, effeithlonrwydd a budd i lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Byddwn yn sicrhau buddion arloesol i'r gymuned gan weithio gyda chontractwyr i gyflawni'r gwerth cymdeithasol uchaf gan gyflawni gwerth ychwanegol i bunt gyhoeddus Cymru. Bydd cymalau gwerth cymdeithasol / buddion cymunedol yn derbyn isafswm o 15% o bwysoliad sgorio cyffredinol neu gyfwerth lle'n briodol.

Tud. 131



Cynaliadwy				
Egwyddorion	Newid Hinsawdd ac Ecolegol	Moesebol	Effeithlon ac Effeithiol	Cefnogi cadwyni cyflenwi lleol
Beth yw'r egwyddor?	<ul style="list-style-type: none"> Lleihau effaith ecolegol a hinsawdd prosiectau'r Cynllun Twf yn cynnwys carbon gweithredol a chorfforedig. Yn benodol i gefnogi prosiectau i gyflawni'r dyheadau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> cyflawni carbon gweithredol sero net cyflawni 40% yn llai o garbon corfforedig cyflawni budd net o 10% ar gyfer bioamrywiaeth Gwneud y gorau o gyfleoedd yr economi cylchol. 	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo ac annog ymddygiad busnes moesebol a chyfrifol i helpu i warchod cyflenwyr a chyflogeion, hyrwyddo Cymru fel lle da i wneud busnes. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau, lle bynnag y bod hynny'n bosib, bod yr holl weithgareddau cadwyn gyflenwi a chaffael yn rhai y gellir eu haildrodd, yn alinio ac yn gyson ar draws eu prosesau a'u defnydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi a gwella mynediad i gyfleoedd tendro ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint a micro-fusnesau a sefydliadau trydydd sector, a chefnogi cydweithio rhwng y busnesau hynny o fewn y rhanbarth.
Pam fod hyn yn flaenoriaeth?	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi sylw i ôl-troed carbon sefydliadol a chadwyn gyflenwi ac effaith ar fioamrywiaeth yn unol â thargedau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> Atal a helpu i waredu arferion anfoesebol ac anghyfreithlon sy'n digwydd mewn cadwyni cyflenwi ledled Cymru a'r tu hwnt. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y ceir arbedion effeithlonrwydd yn sgil y gweithgareddau a chefnogi cadwyni cyflenwi i gynhyrchu'r canlyniadau a ddymunir heb wastraffu deunyddiau, amser nac egni. 	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r economi a helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn cynnwys hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol a busnesau a gefnogir.
Sut fydd arianwyr prosiectau yn cyflawni yn erbyn yr egwyddor hon?	<ul style="list-style-type: none"> Cymhwyso arferion caffael cynaliadwy; Darganfod deunyddiau adeiladu cynaliadwy o ffynonellau lleol lle bo hynny'n bosib; Defnyddio cadwynau cyflenwi lleol; Gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu datrysiadau arloesol Defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu Mentrau i wella bioamrywiaeth ar y safle 	<ul style="list-style-type: none"> Gwreiddio cynnwys Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi o fewn dogfennau tendr a sicrhau bod y rhain yn llifo drwy'r gadwyn gyflenwi. 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phrosesau, dogfennaeth a systemau cydnabyddedig. Canolbwyntio ar nodau lefel uchel strategol i helpu i ddarparu fframwaith effeithlon addas i ymgymryd â gweithgareddau caffael. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cyfleoedd cadwyn gyflenwi yn weladwy i gyflenwyr yng Nghymru gystadlu amdanynt. Cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau.

Tud. 132

Teg, Cyfreithiol a Chydsyniol			
Egwyddorion	Heb Wrthdaro	Tryloyw	Cydsyniol
Beth yw'r egwyddor?	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd mesurau ym mhob cam caffael i adnabod a rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posib i osgoi aflunio cystadleuaeth a sicrhau bod yr holl gyflenwyr posib yn cael eu trin yn gyfartal 	<ul style="list-style-type: none"> Gosod y disgwyliadau'n glir ac yn agored ac yn ddi-amwys, gan roi'r cyfleoedd optimwm i bawb, a sicrhau bod yr holl brosesau a gwybodaeth, lle na phennir ei bod yn wybodaeth fasnachol sensitif, ar gael pan fo angen. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal aliniad busnes gyda rheoliadau, polisiau a phrosesau a gweithdrefnau mewnol cyffredinol
Pam fod hyn yn flaenoriaeth?	<ul style="list-style-type: none"> Dileu ac ymdrin â sefyllfaoedd lle caiff aelodau staff a chyflenwyr eu cyfaddawdu a sicrhau y cynhelir didueddrwydd ac annibyniaeth yng nghyd-destun y weithdrefn caffael 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y darperir cyfleoedd cyfartal a chlr i bob parti i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn modd amserol i osgoi camgymeriadau a optimeiddio cyfleoedd i gefnogi ffyrdd teg nad ydynt yn wahaniaethol o weithio 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu ffyrdd cyson o weithio ynghyd â lliniaru risg posib o her a her gyfreithiol.
Sut fydd arianwyr prosiectau yn cyflawni yn erbyn yr egwyddor hon?	<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â pholisiau Gwrthdaro Buddiannau cymeradwy a sicrhau y cedwir cofnodion drwy gydol y gweithgareddau caffael 	<ul style="list-style-type: none"> Rheoli cofnodion, trywydd archwilio clir ac wedi'i wreiddio i mewn i brosesau a diwylliant 	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu proses a gweithdrefn fewnol gyda pholisi allanol mewn cof. Cyfathrebu i fusnes ehangach a monitro ac archwilio i sicrhau bod y cwbl yn cael eu dilyn. Gweithio o fewn ffiniau polisi caffael cyhoeddus